



Cronfa Antaeithyddol Ewrop ar  
gyfer Datblygu Gwledig:  
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloddi Gwledig  
European Agricultural Fund for  
Rural Development:  
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 - 2020

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig

### Nodiadau Cyfarwyddyd

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

<b>CYNNWYS</b>	<b>PARAGRAFF</b>
Cyflwyniad .....	1
Is-Fesurau sy'n cael sylw yn y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig .....	14
Alinio Blaenoriaethau a Meysydd Ffocws .....	22
Cwmpas Daeryddol .....	24
Pwy all wneud cais .....	25
Gweithgareddau Cymwys .....	27
Gweithgareddau Anghymwys .....	46
Costau Cymwys .....	47
Costau Anghymwys .....	50
Y gyfradd grant a'r trothwy grant uchaf .....	53
Arian Cyfatebol.....	59
Canllawiau ychwanegol ar arian cyfatebol mewn nwyddau .....	65
Cymorth Gwladwriaethol .....	72
Themâu trawsbynciol .....	73
Dewis prosiectau llwyddiannus .....	77
Sut mae gwneud cais .....	82
Manylion cyswllt .....	98
Amodau Grant .....	99
Talu Gran.....	104
Monitro Prosiectau .....	112
Diwedd y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig .....	116
Gweithdrefn Apelio .....	117
Y Drefn Gwyno .....	121
Atodiad A: Rhestr o wardiau cymwys.....	Tudalen 28
Atodiad B: Manylion cyswllt cyrff gweinyddol Grwpiau Gweithredu Lleol (Grwpiau LAG) LEADER .....	Tudalen 37

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: Ebrill 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 2 of 54

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Atodiad C: LEADER, Grwpiau LAG a Strategaethau Datblygu Lleol –  
cefnidir ..... Tudalen 42

Atodiad D: Diffiniad o BBaCh ..... Tudalen 43

Atodiad E: Pwrpas ac Amcanion RCDF - canllawiau pellach ..... Tudalen 44

Atodiad F: Trechu Tlodi - canllawiau pellach ..... Tudalen 47

Atodiad G: Blaenoriaethau a Meysydd Ffocws - disgrifiad ..... Tudalen 50

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn egluro'r **Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig (RCDF)** a'r mathau o brosiectau a allai fod yn gymwys am gymorth grant. Mae'r RCDF yn elfen bwysig o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a ddarperir o dan Fesur 7 (Erthygl 20 o Reoliad (UE) 1305/2013).
  2. Noder bod y ddogfen gyfarwyddyd hon yn cyflwyno amlinelliad o'r RCDF, ac efallai y bydd y ffordd y bydd yn cael ei gweithredu a'r rheolau manwl ar gyfer cymhwysedd gweithgareddau a/neu wariant yn newid gydol cyfnod y Rhaglen.
  3. O dan yr RCDF, bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig grantiau i Grwpiau Gweithredu Lleol (Grwpiau LAG) LEADER a sefydliadau cymunedol eraill yn bennaf er mwyn iddynt fuddsoddi mewn amrywiaeth eang o ymyriadau sy'n ceisio trechu tlodi a lleihau effaith tlodi mewn cymunedau, gan wella amodau sy'n gallu arwain at fwy o swyddi a thwf yn y dyfodol.
  4. Mae gan yr RCDF dri phrif amcan:
    1. Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.
    2. Helpu'r rhai mwyaf difreintiedig yn y Gymru wledig a'r rhai nad oes ganddynt lawer o gyfle i newid eu hamgylchiadau.
    3. Datblygu gwydnwch a gallu cymunedau gwledig fel eu bod yn gallu ymdopi'n well â newid ac addasu i'r newid hwnnw.
- Gweler Atodiad E am ragor o fanylion am bwrpas ac amcanion yr RCDF ac enghreifftiau o'r ymyriadau y gallai eu cefnogi.
5. Mae'n rhaid i geisiadau i'r RCDF ddod yn erbyn un a dim ond un o'r is-Fesurau. Caiff yr ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau o dan gynifer o is-Fesurau ac y maent yn ei ddymuno, ac fe allant gyflwyno nifer o geisiadau o dan unrhyw isFesur, hyd yn oed o fewn yr un ffenestr Datganiad Diddordeb.
  6. Mae gan bob is-fesur reolau penodol ynghylch pwy sy'n gymwys i wneud cais a beth sy'n gymwys am nawdd.
  7. Darllenwch y rheolau cymhwysedd yn ofalus er mwyn gwneud yn siŵr bod eich prosiect yn cyd-fynd â rheolau'r is-fesur yr ydych yn gwneud cais trwyddo.
  8. Mae'n bwysig cofio bod yr RCDF gan fwyaf yn cynnig cyllido eitemau cyfalaf ond bod hyn yn cynnwys ffioedd ar gyfer gosod/adnewyddu (heb fod yn fwy na 12% o gost yr eitem cyfalaf). Yr unig gostau refeniw a gynigir yw'r rheini sy'n

gysylltiedig ag astudiaethau dichonolrwydd ac ymgynghoriadau cymunedol o dan Fesurau 7.1 a 7.6

9. Gellir defnyddio'r RCDF i helpu i dalu am godi, adnewyddu neu addasu adeiladau; ac am fathau eraill o waith adeiladu neu wella cynefinoedd fel llwybrau, camfeydd a gattiau newydd a gwelliannau tebyg.
10. Caniateir defnyddio amser gwirfoddolwyr (ar gyfradd benodol yr awr - cewch ragor o wybodaeth yn yr adran Canllawiau Ychwanegol ar Arian Cyfatebol mewn Nwyddau isod) ond dim ond os yw'r gwirfoddolwyr yn gweithredu goruwchyliaeth o'r gwaith, gwaith adeiladu, codi ffensys; codi camfeydd; creu neu drwsio llwybrau; neu waith arall fydd yn arwain at wella eitemau cyfalaf.
11. Ni fydd arian ar gael trwy'r RCDF i dalu am gostau staff yr ymgeisydd ei hun, fel rheolwr generig cyffredinol y prosiect neu weinyddwyr y prosiect. Er hynny, mi fedr costau mewnol staff fod yn gymwys os ydynt am rheoli prosiect h.y. goruwchyliaeth gweithredu'r prosiect, neu am waith sydd yn ymwneud yn uniongyrchol a'r prosiect fel a fanylir ym mharagraff 10. Ni ddylai y rhain fod am fwy na 12% o'r cyfanswm buddsoddiad a hawli'r ar sail cost wedi ei sumleiddio ond nid yw costau cyfrif unffurf yn gymwys.
12. Rhaid i bob ymgeisydd ar lefel gymunedol drafod ei syniadau a'i gynigion gyda Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) ei ardal cyn cyflwyno ei gais i Lywodraeth Cymru. Gweler Atodiad B am restr o gysylltiadau'r Grwpiau Gweithredu Lleol.
13. Bydd y LAG yn asesu a yw'r cais yn cyfateb i'r blaenoriaethau yn ei Strategaeth Datblygu Lleol (LDS) gymeradwy ar gyfer ei ardal ac yn helpu i ddatblygu'r cynigion os bydd angen. Gweler Atodiad C am ragor o wybodaeth am y LAGs a strategaethau datblygu lleol.

### **IS-FESURAU SY'N CAEL SYLW YN Y GRONFA DATBLYGU CYMUNEDAU GWLEDIG**

14. Mae'r RCDF yn rhoi sylw i weithgareddau a restrir isod sy'n ymwneud â'r 7 isFesur o dan Fesur 7. Sylwch yr esbonnir yn rhannau eraill y Canllawiau hyn pwy sy'n gymwys i wneud cais o dan bob is-fesur a pha weithgareddau a pha gostau sy'n debygol o fod yn gymwys, a pha gostau a gweithgareddau na fyddant yn gymwys.
15. **7.1 – cymorth i lunio cynlluniau datblygu a chynlluniau diogelu a rheoli**
16. **7.2 – cymorth ar gyfer buddsoddiadau yn y gwaith o greu, gwella neu ehangu pob math o seilwaith ar raddfa fach, gan gynnwys buddsoddiadau mewn ynni adnewyddadwy ac arbed ynni**

17. 7.3 Cymorth ar gyfer seilwaith band eang, gan gynnwys ei greu, ei wella a'i ehangu, seilwaith band eang goddefol a darparu mynediad at fand eang ac elywodraeth gyhoeddus
18. 7.4 – cymorth ar gyfer buddsoddiadau yn y gwaith o **sefydlu, gwella neu ehangu gwasanaethau sylfaenol lleol** ar gyfer y boblogaeth wledig, gan gynnwys hamdden a diwylliant, a'r seilwaith cysylltiedig
19. 7.5 – cymorth ar gyfer buddsoddiadau yn nefnydd y cyhoedd o seilwaith hamdden, **gwybodaeth i dwristiaid a seilwaith twristiaeth ar raddfa fach**
20. 7.6 cymorth ar gyfer astudiaethau a buddsoddiadau yn y gwaith o **gynnal a chadw, adfer ac uwchraddio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol**
21. 7.7 Cymorth ar gyfer buddsoddiadau sy'n targedu **adleoli gweithgareddau ac addasu adeiladau** neu gyfleusterau eraill mewn aneddiadau gwledig neu mewn ardaloedd cyfagos, gyda'r nod o wella ansawdd bywyd neu wella perfformiad amgylcheddol yr anheddiad

### **ALINIO BLAENORIAETHAU A MEYSYDD FFOCWS**

22. Rhaid i weithgareddau o dan yr RCDF fynd i'r afael ag o leiaf un o'r meysydd ffocws canlynol:

**Bydd is-Fesur 7.2 yn cyfrannu at y canlynol:**

**Blaenoriaeth 5:** Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth

**Maes Ffocws 5(c)** ei gwneud yn haws i gyflenwi a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy, isgynhyrchion, gwastraff a gweddillion a deunyddiau crai eraill nad ydynt yn fwyd at ddibenion y fio-economi

**Bydd is-Fesurau 7.1, 7.4, 7.5, 7.6 a 7.7 yn cyfrannu at y canlynol:**

**Blaenoriaeth 6:** Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.

**Maes Ffocws 6 (b):** meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig

**Bydd is-Fesur 7.3 yn cyfrannu at y canlynol:**

**Blaenoriaeth 6:** Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.

**Maes Ffocws 6 (c):** gwella hygyrchedd ac ansawdd technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), a chynyddu'r defnydd ohonynt, mewn ardaloedd gwledig

23. I gael mwy o wybodaeth am ddisgrifiadau o Flaenoriaethau a Meysydd Ffocws, gweler Atodiad G y canllawiau hyn.

### **CWMPAS DAEARYDDOL**

24. Mae cwmpas daearyddol yr RCDF yn cyfateb i'r cwmpas ar gyfer LEADER. Mae manylion yn Atodiad A. Mae manylion cyswllt ar gyfer Grwpiau LAG pob ardal yn Atodiad B.

### **PWY ALL WNEUD CAIS**

25. Is-fesur 7.7 yn unig - Mae busnesau masnachol sy'n cynnwys unig fasnachwyr, partneriaethau a chwmnïau preifat sy'n Fusnesau Bach a Chanolig, hefyd yn gymwys o dan yr Is-Fesur hwn ond nid o dan unrhyw is-fesur arall.
26. Pob Is-fesur arall - Rhaid i'r ymgeiswyr fod yn endid cyfreithiol nad yw'n fusnes masnachol sy'n cynnwys y canlynol (ond heb ei gyfyngu iddynt):
- Grwpiau Gweithredu Lleol (os ydyn wedi'u corffori)
  - Elusennau ac Ymddiriedolaethau cofrestredig
  - Cwmnïau cyfyngedig trwy warant
  - Cwmnïau buddiannau cymunedol
  - Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol
  - Cwmnïau Cyd-fuddiannol Cymdeithasau Ddiwydiannol a Darbodus a chwmnïau cydweithredol eraill
  - Awdurdodau Lleol a chyrrff cyhoeddus eraill
  - Cyngorau Tref a Chymuned
  - Llywodraeth Cymru

Nid yw cymdeithasau anghorfforedig, grwpiau o gymdeithasau neu unrhyw fath arall o grŵp cymunedol nad oes iddynt statws cyfreithiol ffurfiol yn gymwys o dan unrhyw Is-fesur.

### **GWEITHGAREDDAU CYMWYS**

27. Nid yw hi'n bosibl darparu rhestr derfynol o weithgareddau sy'n gymwys neu a all fod yn gymwys o dan yr RCDF gan fod cwmpas posibl y gronfa yn eang iawn ac wedi'i chynllunio i ymateb i anghenion lleol.
28. Mae'r adran sy'n dilyn yn rhestru'r mathau o weithgareddau fydd yn debygol o fod yn gymwys.

29. Mae yna rai mathau o weithgarwch na fyddent yn cael eu cefnogi o dan yr RCDF (gweler yr adran Gweithgareddau Anghymwys).

### **7.1 Cymorth i lunio cynlluniau datblygu a chynlluniau diogelu a rheoli**

30. Rhaid i bob cais cymunedol am fuddsoddiad o dan 7.2-7.7 gael ei gefnogi gan gynlluniau datblygu manwl. Os oes cynlluniau datblygu lleol priodol, diweddar (yn ystod y tair blynedd diwethaf) a manwl ar gyfer y prosiect eisoes ar waith ar gyfer y gweithgarwch arfaethedig, rhaid iddynt gael eu cyflwyno (yn ystod y cyfnod ymgeisio llawn).
31. Mae 7.1 yn cynnig cymorth i gymunedau nad oes ganddynt gynlluniau datblygu manwl eisoes ar waith. Mae gweithgareddau cymwys yn cynnwys:
- datblygu neu ddiweddarau dogfennau cynllunio lleol, datblygu cynlluniau rheoli ar gyfer Natura 2000 ac ardaloedd eraill sydd o Werth Mawr i Natur
  - gweithgareddau ymgynghori anstatudol cysylltiedig i ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau a rhanddeiliaid eraill sy'n cael eu heffeithio gan y gweithgarwch arfaethedig, neu a allai effeithio ar y gweithgarwch hwnnw, wrth ddatblygu neu fanylu ar y cynlluniau
  - gweithgareddau codi ymwybyddiaeth cysylltiedig ac ymgynghoriadau cyhoeddus i sicrhau bod yr holl randdeiliaid sy'n cael eu heffeithio neu sy'n effeithio ar y gweithgarwch yn dod yn ymwybodol o'r cynlluniau ar ôl iddynt gael eu cynhyrchu

D.S. Rhaid i gynlluniau datblygu cymuned / pentref sy'n cynnwys elfennau defnydd tir gynnwys asesiad trylwyr o'r ystyriaethau amgylcheddol. Rhaid i'r cynlluniau hyn gael eu datblygu yn unol â rheolaethau cynllunio gofodol rhanbarthol er mwyn parhau'r amgylchedd a rheoli pwysau trefol. Rhaid i gynlluniau gynnwys elfen amgylcheddol cynllunio defnydd tir a phennu ffiniau bio-goridorau a bio-ganolfannau a fyddai'n cynrychioli'r terfynau ar gyfer buddsoddiadau yn yr ardal

### **7.2 Cymorth ar gyfer buddsoddiadau yn y gwaith o greu, gwella neu ehangu pob math o seilwaith ar raddfa fach, gan gynnwys buddsoddiadau mewn ynni adnewyddadwy ac arbed ynni**

32. Mae 7.2 yn canolbwyntio ar adeiladu cyfleusterau ychwanegol i gynhyrchu a defnyddio ynni adnewyddadwy mewn cymunedau gwledig a sefydlu rhwydweithiau dosbarthu ar gyfer gwres/trydan/nwy/pŵer o fiomas a ffynonellau adnewyddadwy eraill. Mae buddsoddiad ar raddfa fach yn y gwaith o adeiladu neu ailadeiladu canolfannau ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a/neu gyfleusterau gofal ac addysgol yn weithgarwch cymwys hefyd.
33. Gall buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy gynnwys:

Cynhyrchu trydan trwy:



- ynni dŵr
- ynni gwynt
- solar ffotofoltäig □ gwres a phŵer cyfunedig
- biomas a bio-nwy, gan gynnwys trwy dreulio anaerobig.

Cynhyrchu gwres trwy:

- biomas a bio-nwy, gan gynnwys trwy dreulio anaerobig.
- geothermol
- gwres a phŵer cyfunedig
- gwresogi ardal □ solar thermol
- pypiau gwres.

### **7.3 Cymorth ar gyfer seilwaith band eang, gan gynnwys ei greu, ei wella a'i ehangu, seilwaith band eang goddefol a darparu mynediad at fand eang ac elywodraeth gyhoeddus**

34. Bydd 7.3 ond yn cael ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd lle mae angen ymyrraeth gyhoeddus am nad yw'r farchnad yn darparu'r effeithiau dymunol. Mewn perthynas â seilwaith band eang, ystyrir bod y canlynol yn weithgareddau cymwys:
- creu a galluogi mynediad at seilwaith band eang, gan gynnwys cyfleusterau a chyfarpar ar y ddaear (e.e. technolegau daearol, diwifr sefydlog, technolegau lloeren neu gyfuniad o dechnolegau)
  - uwchraddio'r seilwaith band eang presennol (e.e. gwella dibynadwyedd, cyflymder, gallu, cwmpas, ansawdd gwasanaeth ac ati)
  - gosod seilwaith band eang goddefol (e.e.: gwaith peirianeg sifil, megis dwythellau, ac elfennau rhwydwaith eraill megis ffeibr tywyll ac ati) a sicrhau ei fod yn cyd-fynd â seilweithiau eraill (ynni, trafndiaeth, dŵr, rhwydweithiau carthffosiaeth ac ati)
35. Y bwriad yw defnyddio Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) mewn ffordd ategol i gefnogi'r gwaith o gwblhau rhwydweithiau TGCh yng Nghymru, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl. Rydym yn disgwyl y bydd Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yn cael ei defnyddio i ychwanegu gwerth at fuddsoddiadau preifat a domestig sylweddol gyda'r nod o fynd i'r afael â'r ardaloedd gwyn sy'n weddill a chwblhau'r rhwydweithiau ledled Cymru.

### **7.4 Cymorth ar gyfer buddsoddiadau yn y gwaith o sefydlu, gwella neu ehangu gwasanaethau sylfaenol lleol ar gyfer y boblogaeth wledig, gan gynnwys hamdden a diwylliant, a'r seilwaith cysylltiedig**

36. Mae 7.4 yn gallu darparu cymorth ar gyfer buddsoddiad sy'n gysylltiedig ag atebion trafndiaeth lleol i ddiwallu anghenion penodol cymunedau gwledig megis mentrau trafndiaeth gymunedol, cynlluniau Galw'r Gyrrwr a/neu rannu car (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol). Mae 7.4 hefyd yn gallu darparu

Fersiwn: 11

Dyddiad Cyhoeddi: Ebrill 2018

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 9 of 54

buddsoddiad lle gall arbedion maint ofyn am ymyrraeth ranbarthol mewn mentrau trafndiaeth wledig, gyda chymorth arweinyddiaeth gymunedol ac i helpu i fynd i'r afael â materion lleol penodol.

37. Mae 7.4 yn gallu cefnogi buddsoddiad i helpu gwasanaethau eraill i gynnig "allgymorth" i ardaloedd gwledig, er enghraifft, darparu cyngor a gwybodaeth ynghylch gwasanaethau ariannol (e.e. trwy undebau credyd). Er mwyn bod yn gwbl glir, ni ddefnyddir yr RCDF i gefnogi costau gweithredol i ddarparu gwasanaethau ariannol. Gallai neuaddau pentref/canolfannau cymunedol gynnig y rhain, yn ogystal ag, er enghraifft, gwasanaethau meddygol (na fyddant yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020), megis clinigau ciropodyddion.

38. Mae 7.4 yn gallu cefnogi buddsoddiad ar gyfer sefydlu, ehangu a moderneiddio marchnadoedd lleol a gweithgareddau hamdden a diwylliannol gyda'r nod o leihau arwahanrwydd cymdeithasol a gwella iechyd a/neu ansawdd bywyd pobl.
39. Mae 7.4 yn gallu cefnogi buddsoddiad i helpu i gynyddu nifer y gwasanaethau anstatudol megis gofal plant a gofal dibynyddion ac i ddatblygu opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau trwy fodolau mentrau cymdeithasol dan arweiniad lleol.

#### **7.5 Cymorth ar gyfer buddsoddiadau yn nefnydd y cyhoedd o'r seilwaith hamdden, gwybodaeth i dwristiaid a seilwaith twristiaeth ar raddfa fach**

40. Mae 7.5 yn gallu darparu cymorth ar gyfer buddsoddiad mewn seilwaith hamdden a thwristiaeth sy'n dangos cysylltiadau clir â rhagolygon iechyd, addysg neu gyflogaeth y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd teneuaf eu poblogaeth yng Nghymru. Nod y gweithgarwch hwn yw cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi gwledig a gwella ansawdd bywyd aelwydydd ar incwm isel.
41. Gall 7.5 gael ei ddefnyddio i gynnig buddsoddiad ar raddfa fach er mwyn gwella arwyddion i safleoedd twristiaeth, adeiladu a moderneiddio canolfannau croeso a darparu gwybodaeth a chanllawiau i ymwelwyr.
42. Gellir buddsoddi yn y gwaith o adeiladu cysgodfeydd a chyfleusterau diogelwch sy'n gysylltiedig â thwristiaeth feddal a sefydlu systemau e-archebu ar gyfer gwasanaethau twristiaeth.  
Cefnogir buddsoddiadau i ddatblygu twristiaeth feddal gyda'i nodweddion cryf sylfaenol (cynnyrch lleol, ar raddfa fach, perchnogaeth a llafur lleol, cysylltiadau â busnesau lleol, cysylltiadau diwylliannol-gymdeithasol cryf, ychydig iawn o effaith negyddol ar yr amgylchedd).

#### **7.6 Cymorth ar gyfer astudiaethau a buddsoddiadau yn y gwaith o gynnal a chadw, adfer ac uwchraddio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol**

43. Mae 7.6 yn gallu darparu cymorth ar gyfer astudiaethau a buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gynnal a chadw, adfer ac uwchraddio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol pentrefi, tirweddau gwledig a safleoedd o werth mawr i natur, gan gynnwys elfennau economaidd-gymdeithasol cysylltiedig, a chamau i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd.
44. Gall ymyriadau posibl gynnwys:
  - adfer ecosystemau naturiol, gan gynnwys ardaloedd o werth mawr i natur
  - adfer neu greu ardaloedd anial
  - creu rhwydweithiau rhanbarthol sy'n gysylltiedig â Natura 2000
  - astudiaethau tiriogaethol ar gyfer dylunio mesurau amaeth-amgylcheddol lleol a gwybodaeth am fesurau amaeth-amgylcheddol
  - gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a darparu gwybodaeth e.e.

□

- canolfannau ymwelwyr mewn ardaloedd gwarchoddedig, cyhoeddusrwydd, byrddau dehongli a llwybrau thematig
- gwarchod treftadaeth adeiledig ar raddfa fach (capeli, pontydd, amwynderau cyhoeddus ac ati)
- camau i restru safleoedd treftadaeth ddiwylliannol/naturiol
- diogelu treftadaeth anfaterol megis cerddoriaeth, chwedloniaeth, ethnoleg

### **7.7 Cymorth ar gyfer buddsoddiadau sy'n targedu adleoli gweithgareddau ac addasu adeiladau neu gyfleusterau eraill mewn aneddiadau gwledig neu mewn ardaloedd cyfagos, gyda'r nod o wella ansawdd bywyd neu wella perfformiad amgylcheddol yr anheddiad**

45. Mae 7.7 yn gallu cefnogi buddsoddiad i drosi adeiladau neu gyfleusterau eraill ac fel y gellir adleoli gweithgareddau er mwyn cyfrannu at drechu tlodi a gwella ansawdd bywyd neu wella perfformiad amgylcheddol yr anheddiad. Y gobaith yw y bydd y camau hyn yn gwneud yr ardaloedd gwledig yn fwy deniadol ac yn arwain at greu swyddi yn y pen draw.

D.S. Bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio pob cais am gymorth i adleoli, ac eithrio achosion sy'n ymwneud â busnesau sydd eisoes wedi derbyn cymorth i sefydlu eu busnes mewn rhanbarth trefol sy'n perfformio'n wael.

### **GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS**

46. Cronfa fuddsoddi yw'r RCDF. **Nid oes unrhyw gyllid refeniw ar gael ar gyfer costau staff neu gostau gweithredu eraill tebyg.**

### **COSTAU CYMWYS**

47. O dan **7.1 yn unig**, mae'r costau cymwys yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
- datblygu neu ddiweddarau dogfennau cynllunio lleol a manylu ar gynlluniau rheoli ar gyfer Natura 2000 ac ardaloedd eraill sydd o Werth Mawr i Natur □ gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori cysylltiedig wrth ddatblygu/manylu ar y cynlluniau
  - ymgynghoriadau cyhoeddus a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth cysylltiedig i sefydlu'r cynlluniau ar ôl iddynt gael eu cynhyrchu.
48. O dan **7.6 yn unig**, mae'r costau cymwys yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r canlynol:
- astudiaethau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o gynnal a chadw, adfer ac uwchraddio treftadaeth ddiwylliannol a naturiol pentrefi, tirweddau gwledig a safleoedd o werth mawr i natur, gan gynnwys elfennau

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 12 of 54



economaiddgymdeithasol cysylltiedig, a chamau i godi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd

49. Ar gyfer **7.2-7.7**, gall costau cymwys gynnwys:

adeiladu a chaffael eiddo sefydlog, gan gynnwys ei brydlesu neu ei wella (mae gwella eiddo yn cynnwys ailwampio eiddo presennol, gan gynnwys y costau trosi sy'n gysylltiedig â newid defnydd eiddo)

- prynu peiriannau a chyfarpar newydd, gan gynnwys meddalwedd gyfrifiadurol hyd at werth yr ased ar y farchnad, i bob buddiolwr
- prynu cyfarpar ail-law. Dyma'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cyfarpar ail-law:
  - a. rhaid iddo fod yn addas ar gyfer y gweithgarwch prosiect dan sylw
  - b. rhaid iddo fod o ansawdd da ac â digon o fywyd gwaith ar ôl i allu bodloni'r meini prawf ar gyfer cadw ased am bum mlynedd o leiaf
  - c. rhaid iddo gynrychioli mantais ddigonol o ran gwerth am arian o'i gymharu â chyfarpar newydd

O dan rai amgylchiadau, efallai y byddwn yn gofyn am adroddiad annibynnol, er enghraifft, gan beiriannydd neu gyflenwr cymwys, sy'n dweud y bydd y cyfarpar yn bodloni'r meini prawf hyn os oes unrhyw amheuan neu os mai ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng gwerth y cyfarpar ail-law a chost cyfarpar newydd

- Mae costau cyffredinol hyd at uchafswm o 12% o gyfanswm y gwariant cyfalaf yn gymwys hefyd. Byddant naill ai'n gostau untro neu'n gostau am amser cyfyngedig sy'n helpu'r fenter i oresgyn rhwystr datblygu wedi'i ragddiffinio y gellir ei oresgyn a byddant yn gysylltiedig hefyd â chynnal y prosiect cyfalaf ac nad ydynt yn gostau staff mewnol. Gall y costau hyn gynnwys astudiaethau dichonoldeb a chaffael hawliau a thrwyddedau patent; mae ffioedd ymgynghorwyr a phenseiri, costau dylunio technegol eraill, costau arolwg ar safle, ffioedd proffesiynol, costau cynllunio a chostau eraill sy'n gysylltiedig ag unrhyw drwyddedau a/neu gydsyniadau angenrheidiol yn gymwys hefyd, hyd yn oed os ydynt wedi'u cwblhau a'u talu cyn eu cymeradwyo, cyn belled â'u bod yn hanfodol i ddarpariaeth y prosiect

### **COSTAU ANGHYMWYS**

50. Mae'r eitemau canlynol yn enghreifftiau o wariant sy'n **anghymwys** ar gyfer cymorth grant. Nid yw hon yn rhestr derfynol a bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried fesul achos.

- 
- prynu tir, gan gynnwys treuliau cysylltiedig, lle mae'r costau'n fwy na 10% o'r buddsoddiad
- prynu adeiladau sydd wedi'u defnyddio'n flaenorol ar gyfer yr un diben
- gwaith ffisegol a wneir cyn dyddiad dechrau awdurdodedig y gwaith **(os gwelir bod unrhyw waith o'r fath wedi'i wneud, gallai'r cais gael ei wrthod)**
- gwaith dros dro nad yw'n **uniongyrchol** gysylltiedig â gweithredu'r prosiect
- prynu stoc masnachu
- cyfalaf gweithio
- TAW adenilladwy
- costau cynnal a chadw a/neu unrhyw fath arall o gostau gweithredol
- cyfnewid peiriannau neu gyfarpar am rai newydd yr un fath
- nwyddau traul (eitemau sy'n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer)
- cyfarpar a dodrefn swyddfa cyffredinol heblaw am ddesgiau, cadeiriau, cyfarpar ffôn, cyfrifiaduron a chyfarpar TG arall, meddalwedd a theleargraffyddion, cyfarpar labordai a darlithfeydd sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r prosiect
- costau refeniw fel cyflogau ar gyfer staff allweddol; hyfforddiant ar gyfer cyfarwyddwyr a staff allweddol - mynychu ffeiriau masnach - treuliau cyfarwyddwyr allanol
- costau sy'n gysylltiedig â chontract prydlesu fel elw leswyr, costau cyllido llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- costau trefnu cyfleusterau gorddrafft, benthyciadau neu gyfleusterau cymorth ariannol eraill, gan gynnwys unrhyw ffioedd cysylltiedig neu daliadau eraill
- gorbenion sy'n cael eu dyrannu neu eu dosrannu ar gyfraddau llawer uwch na'r rhai a ddefnyddir ar gyfer gwaith tebyg a gyflawnir gan yr ymgeisydd
- gwariant tybiannol
- taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur grefyddol a/neu wleidyddol
- dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad asedau a brynwyd gyda chymorth grant
- rhwymedigaethau digwyddiadol
- hapddigwyddiadau / darpariaethau
- elw a wneir gan yr ymgeisydd
- buddrannau
- taliadau llog (ac eithrio o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol a gymeradwyir)
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o brydlesau cyllid, hurbwrcasu a threfniadau credyd
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- costau sy'n ymwneud â dirwyn cwmni i ben
- taliadau am ddiswyddo annheg
- taliadau i gynlluniau pensiwn preifat
- taliadau ar gyfer pensiynau heb eu cyllido

□

- iawndal am golli swydd
- iawndal a delir i drydydd partïon am ddifeddiant, cnydau heb eu cynaeafu ac ati
- drwgddyledion sy'n deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchenogion, cyfarwyddwyr, partneriaid, gwarantwyr, rhanddeiliaid neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau am anrhegion a rhoddion
- adloniant
- dirwyon a chosbau statudol
- costau'n codi o waith gorfodi statudol
- trethi statudol (ac eithrio TAW na ellir ei hadennill)
- dirwyon ac iawndal troseddol
- treuliau cyfreithiol yn ymwneud â chyfreitha.

51. Rhaid i gostau sy'n gysylltiedig â phrynu a/neu ailwampio a/neu addasu unrhyw adeilad fod yn briodol i faint, natur a bwriad y prosiect. Ni ellir defnyddio grant at ddiben caffael asedau cyfalaf nad ydynt yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r gweithgarwch arfaethedig.
52. Dim ond os ydynt yn gysylltiedig â phrynu cyfarpar (newydd a/neu ail law) y mae costau'n gymwys i gael cymorth grant pan fo'r gost wedi'i thalu'n gywir gan yr hawliwr. Gan hynny, nid yw costau llawn unrhyw gyfarpar sy'n cael ei sicrhau dan drefniant hurbwrcasu neu brydles neu unrhyw drefniant ariannol arall yn gymwys am gymorth grant. O dan amgylchiadau penodol, gall elfen gyfalaf taliadau misol fod yn gymwys am gyfnod penodol, ond bydd rheolau eraill yn gymwys.

### **Y GYFRADD GRANT A'R TROTHWY GRANT UCHAF**

53. Y grant yw cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus i'r prosiect buddsoddi. Mae hynny'n cynnwys: arian oddi wrth yr UE; cyd-gyllid i gronfeydd yr UE gan Lywodraeth Cymru; arian oddi wrth adrannau eraill y Llywodraeth ac asiantaethau, cyrff cyhoeddus anadrannol ac awdurdodau lleol; arian oddi wrth gyrff a reolir gan y llywodraeth fel y Gwasanaeth i Fusnesau Bach a'r Loteri Cenedlaethol; ac arian trwy ardrethi ardrethiannol
54. Os ceir arian o gronfeydd cyhoeddus yr UE neu'r DU i helpu costau prosiect, gellir ei gynnwys yn ychwanegol at y grant a roddir.
55. Caniateir talu grant o hyd at 100% ar gyfer yr holl is-fesurau.
56. Is-fesur 7.1 - cyfraniad grant yr RCDF yw 50% o gostau cymwys.  
Yr isafswm grant fydd £400.
57. Is-fesur 7.6 - astudiaethau'n unig – cyfraniad grant yr RCDF yw 50% o gostau cymwys.  
Yr isafswm grant fydd £400.
58. Is-fesurau 7.2 i 7.7- buddsoddiadau – cyfraniad grant yr RCDF yw 80% o gostau cymwys.  
Yr isafswm grant fydd £2,400.  
Y grant mwyaf ar gyfer pob prosiect oddi wrth yr RCDF yw £128,000

### **ARIAN CYFATEBOL**

59. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau 50% o gostau cymwys y prosiect (ar gyfer 7.1 ac astudiaethau o dan 7.6) ac 20% o gostau cymwys y prosiect (ar gyfer buddsoddiadau o dan 7.2-7.7). Diffinnir yr arian ychwanegol hwn fel arian cyfatebol o fewn cyd-destun yr RCDF

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 16 of 54



60. Efallai y darperir arian cyfatebol ar ffurf arian parod neu gyfraniadau o fath arall o'r sector cyhoeddus, y sector preifat neu'r trydydd sector.
61. Mae cyfraniadau o fath arall yn cynnwys gwasanaethau, eitemau neu gynhyrchion a roddir i'r prosiect gan unigolyn neu sefydliad trydydd parti lle na chafwyd trafodiad arian parod. Ni all noddwr y prosiect wneud cyfraniadau o fath arall fel amser staff neu adnoddau eraill.
62. Rhaid i'r holl gyfraniadau o fath arall a ddarperir fel arian cyfatebol gyfrannu at y gwaith o ddarparu prosiect a rhaid iddynt fod yn gostau cymwys (e.e. os yw cyfraniadau o fath arall ar ffurf gwaith di-dâl yn cael eu defnyddio fel arian cyfatebol, rhaid i'r arian gael ei gyfrannu at y prosiect ar gyfer cost gymwys e.e. ffioedd Pensaer ac nid, er enghraifft, amser i ysgrifennu cais y prosiect.
63. O dan RCDF, ni chaiff ymgeiswyr ddefnyddio amser gwirfoddoli cyffredinol a ddefnyddir i gyflawni gweithgareddau neu fath arall o gostau referniw fel arian cyfatebol.
64. Gall cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus at y prosiect buddsoddi hefyd gynnwys arian o ffynonellau sector cyhoeddus eraill, fel y'u diffinnir isod. At ddibenion gweinyddol, diffinnir y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector fel a ganlyn:

### **Y sector cyhoeddus**

Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cynnwys unrhyw sefydliadau sydd o dan reolaeth neu'n rhan o lywodraeth ganolog neu leol. Mae hyn yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru
- Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru □ Adrannau Llywodraeth y DU a'u Hasiantaethau
- cyrff cyhoeddus anadrannol
- Awdurdodau Lleol
- y sector addysg gyhoeddus (gan gynnwys addysg bellach ac uwch)
- unrhyw gwmnïau dielw a sefydlwyd gan ran o lywodraeth leol neu lywodraeth ganolog at ddibenion darparu rhan o'i gwasanaethau neu ymarfer ei phwerau
- cwmnïau sy'n cynnwys partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus (e.e. Awdurdodau Lleol) a'r sector preifat, lle mae cyfranddaliad y sector preifat yn llai na 50%

Mae'r canlynol hefyd yn cael eu cyfrif fel arian o ffynonellau sector cyhoeddus:

- arian gan gyrff a reolir gan y llywodraeth, megis y Gwasanaeth Busnesau Bach a'r Loteri Genedlaethol

- arian o drethi ardrethiannol (ardollau)

### **Y sector preifat**

- cwmnïau sy'n gweithredu gyda'r bwriad o wneud elw a lle gallai'r elw hwnnw gael ei ddosbarthu;
- cwmnïau sy'n bartneriaethau rhwng corff sector preifat (h.y. cwmni sy'n dosbarthu elw fel yr amlinellir uchod) a chorff sector cyhoeddus, a lle mae cyfranddaliad y sector preifat yn 50% neu fwy)

### **Y Trydydd Sector**

- sefydliadau anllywodraethol â gwerthoedd yn eu llywio sy'n ail-fuddsoddi'r arian sydd ganddynt dros ben yn bennaf er mwyn cyflawni amcanion cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol. Mae'n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau ac ymddiriedolaethau, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a chwmnïau cydfuddiannol.

## **CANLLAWIAU YCHWANEGOL AR ARIAN CYFATEBOL MEWN NWYDDAU**

65. **Nid yw gwerthu cyfarpar am bris gostyngol na darparu gwasanaethau neu gyngor am bris gostyngol yn gymwys fel arian cyfatebol mewn nwyddau.**

### **Rheolau cymhwysedd penodol ar gyfer grantiau a chymorth ad-daladwy**

66. Efallai y bydd cyfraniadau o fath arall ar ffurf gwaith, nwyddau, gwasanaethau, tir ac eiddo tiriog nad oes unrhyw daliad a gefnogir gan anfonebau neu ddogfennau cyfwerth wedi'i wneud amdanynt, yn gymwys ar yr amod bod rheolau cymhwysedd y Cronfeydd ESI a'r rhaglen yn darparu ar gyfer hynny a bod y meini prawf canlynol wedi'u bodloni:
- a. ni ddylai'r cymorth cyhoeddus a delir i'r gwaith dan sylw, sy'n cynnwys cyfraniadau o fath arall, fod yn fwy na chyfanswm y gwariant cymwys, ac eithrio cyfraniadau o fath arall, ar ddiwedd y gwaith dan sylw
  - b. ni ddylai'r gwerth a briodolir i gyfraniadau o fath arall fod yn fwy na'r costau a dderbynnir fel arfer ar y farchnad dan sylw
  - c. gall gwerth a darpariaeth y cyfraniad gael eu hasesu a'u dilysu'n annibynnol
  - d. o ran darparu tir neu eiddo tiriog, gellir talu swm bach mewn arian parod bob blwyddyn at ddibenion cytundeb prydles, cyn belled nad yw'n fwy nag un uned o arian yr Aelod-wladwriaeth
  - e. o ran cyfraniadau o fath arall ar ffurf gwaith di-dâl, pennir gwerth y gwaith hwnnw trwy ystyried yr amser a dreuliwyd ar y gwaith a'r gyfradd dalu ar gyfer gwaith tebyg

### Cyfarpar a Deunyddiau Crai

67. Gall cyfarpar a deunydd crai gael eu darparu i brosiect fel arian cyfatebol mewn nwyddau, ond rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chadw o werth yr hyn a ddarperir. Gall hyn fod ar ffurf rhestr brisiau gyhoeddedig neu gatalog yn dangos y cyfarpar neu'r deunyddiau neu, ar gyfer eitemau mwy pwrpasol, prisiad gan brisiwr cymwys annibynnol.

### Ymchwil neu Waith Proffesiynol

68. Gall ymchwil neu waith proffesiynol arall gael ei ddarparu i brosiect fel arian cyfatebol mewn nwyddau, ond rhaid i'r ymgeisydd sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chadw o werth y gwasanaethau a ddarperir. Dylai hyn gynnwys yr wybodaeth ganlynol o leiaf:
- dylai rhestr brisiau gyhoeddedig fod ar gael ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir
  - dylai tystiolaeth fod ar gael i brofi bod y ffigurau hyn yn gystadleuol o'u cymharu â phrisiau'r gystadleuaeth
  - mae angen cadw taflenni amser neu gofnodion eraill o'r amser a gyfrannir os yw'r gost yn defnyddio'r sail hon

### Gwaith Gwirfoddol Di-dâl

69. Yn achos gwaith gwirfoddol di-dâl sy'n hanfodol er mwyn darparu'r prosiect, pennir gwerth y gwaith gan ystyried yr amser a dreuliyd yn gwneud y gwaith a'r gyfradd dalu arferol (yr awr neu y dydd) ar gyfer y gwaith. Ni fydd cyfraniad y grant at brosiect yn fwy na chyfanswm y gwariant cymwys namyn y cyfraniad o fath arall. Yn ogystal:
- rhaid i symiau sy'n cael eu hawlio ar gyfer y gweithgarwch hwn gael eu hawlio ar gyfradd sy'n gymesur â natur y gwaith a gyflawnir, yn hytrach na bod yn seiliedig ar gyfradd dalu arferol y gwirfoddolwr. Os bydd gwirfoddolwr yn gwneud yr un dyletswyddau neu ddyletswyddau tebyg i staff cyflogedig, bydd y gwirfoddolwr yn cael ei dalu ar yr un gyfradd â'r gweithiwr cyflogedig. Os nad oes yna gyfradd dalu gymaradwy, mae cyfraddau derbyniol wedi'u cynnwys o dan baragraff 69. **Ni ddylid mynd yn uwch na'r cyfraddau a amlinellir isod ar gyfer y defnydd o waith didâl fel cyllid ysgogi mewn nwyddau ar gyfer unrhyw brosiect**
  - byddai angen cytuno i gynnwys costau swyddogaethau mwy arbenigol a thechnegol fel arian cyfatebol mewn nwyddau cyn i'r gweithgarwch gychwyn. Disgwylir i'r prosiect gadw dogfennau cyfiawnhad clir ar gyfer yr arbenigwr ac ar gyfer y gyfradd dalu a ddefnyddir at ddibenion arian cyfatebol mewn nwyddau

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

- dylai taflenni amser gael eu cadw i gefnogi'r oriau sy'n cael eu hawlio tuag at y prosiect, a dylent gael eu llofnodi gan y gwirfoddolwr a'r cyflogwr
- dim ond pobl sy'n gweithredu'n gwbl wirfoddol fydd yn gymwys. Os bydd gweithiwr cyflogedig y prosiect yn cyflawni dyletswyddau 'gwirfoddol' ychwanegol, ni fyddant yn gymwys i gael arian cyfatebol mewn nwyddau

### **Costau tybiannol y cytunwyd arnynt i'w defnyddio fel cyfraddau derbyniol ar gyfer gwaith gwirfoddol**

70. Mae'r cyfraddau isod wedi'u darparu a'u cadarnhau gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru ac maent yn seiliedig ar ddadansoddiadau sy'n defnyddio'r 'Arolwg Blyneddol o Oriau ac Enillion' (ASHE), sy'n cynnwys y data diweddaraf a gyhoeddwyd ar 2016 Rhagfyr 2013 (Noder bod y cyfraddau ar gyfer y DU, ac eithrio Llundain a De-ddwyrain Lloegr).

Teitl y Swydd	Cod SOC	Cyfradd yr awr (£)	Cyfradd y flwyddyn (£)
Rheolwr y Prosiect	2424	21.86	41,851
Ymchwilydd y Prosiect	2426	16.83	31,759
Cydgysylltydd y Prosiect	3539	12.54	24,590
Hyfforddwr	3563	13.81	26,688
Gweinyddwr y Prosiect	4159	10.00	19,461
Llafur Cyffredinol	91 a 92	8.50	18,193

### **Asesu Prosiect a Risg**

71. Efallai y bydd prosiectau sy'n cynnwys llawer iawn o arian cyfatebol mewn nwyddau yn wynebu problemau llif arian os bydd cyfanswm neu amseru'r gweithgarwch neu'r cyfraniad o fath arall yn amrywio neu os na fydd yn dod i law mewn pryd. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn darparu llwybr archwilio llawn ar gyfer yr holl arian cyfatebol mewn nwyddau a rhaid i unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n gwneud cyfraniad o'r fath ddarparu a chadw'r cofnodion angenrheidiol hefyd.

### **CYMORTH GWLADWRIAETHOL**

72. Defnyddir y llwybrau canlynol i gael Cymorth Gwladwriaethol ar gyfer grantiau a gyhoeddir o dan yr RCDF:

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 20 of 54

- 7.1 GL – adran 3.2 – Cymorth ar gyfer gwasanaethau sylfaenol ac adnewyddu pentrefi mewn ardaloedd gwledig - paragraff 644 (a)
- 7.2 GL – adran 3.2 – Cymorth ar gyfer gwasanaethau sylfaenol ac adnewyddu pentrefi mewn ardaloedd gwledig - paragraff 644 (b) – buddsoddi i greu, gwella neu ehangu pob math o seilwaith bach, ond nid buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ac arbed ynni a seilwaith band eang
- 7.2 – GBER – SA 40460 ‘Cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Gwarchod yr Amgylchedd’ neu De Minimis Diwydiannol – ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith bach, ynni adnewyddadwy ac arbed ynni
- 7.3 GBER Erthygl 52 – SA 40720 – ‘Cynllun Band Eang Cenedlaethol ar gyfer y DU ar gyfer 2016-2020’ neu De Minimis Diwydiannol – cymorth ar gyfer seilwaith band eang
- 7.4 GL – adran 3.2 – Cymorth ar gyfer gwasanaethau sylfaenol ac adnewyddu pentrefi mewn ardaloedd gwledig - paragraff 644 (c)
- 7.5 GL – adran 3.2 – Cymorth ar gyfer gwasanaethau sylfaenol ac adnewyddu pentrefi mewn ardaloedd gwledig - paragraff 644 (d)
- 7.6 GL – adran 3.2 – Cymorth ar gyfer gwasanaethau sylfaenol ac adnewyddu pentrefi mewn ardaloedd gwledig - paragraff 644 (e)
- 7.7 GL – adran 3.2 – Cymorth ar gyfer gwasanaethau sylfaenol ac adnewyddu pentrefi mewn ardaloedd gwledig - paragraff 644 (f) □ De Minimis Diwydiannol a gyfer gweithgarwch sy’n dod o fewn cwmpas y Rhaglen Datblygu Gwledig ond y tu allan i GL3.2 paragraff 644 (a-f) neu y tu allan i’r Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol (GBER).

## **THEMÂU TRAWSBYNCIOL**

73. Mae'r Rheoliadau sy'n llywodraethu'r Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod rhaid i bob prosiect a ariennir trwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio Themâu Trawsbynciol, sef Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Cydraddoldeb Rhywiol a Datblygu Cynaliadwy. Mae angen i'r themâu gorfodol hyn gael eu hintegreiddio yn y gwaith o gynllunio a datblygu'r Cronfeydd ESI, a rhaid i'r gweithgarwch gael ei gefnogi trwy'r cronfeydd. Mae hyn yn cynnwys Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 20142020.
74. Yn ogystal â'r ddwy Thema Drawsbynciol a orfodir gan y Comisiwn Ewropeaidd, bydd Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol hefyd yn themâu gorfodol ar gyfer rhaglenni Cymru.
75. Bwriad y Themâu Trawsbynciol yw ychwanegu gwerth, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, cynyddu'r cyfraddau cyfranogiad a lliniaru effeithiau andwyol. Dylai hyn fod o gymorth i weithrediadau symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth a datblygu systemau sy'n cefnogi arfer gorau.
76. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yma: <http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/applying/?skip=1&lang=cy>

## **DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS**

77. I gael ei ddewis, rhaid i brosiect ddangos sut mae meini prawf craidd ESI yn cael eu bodloni:

- mae'r meini prawf craidd yn cynnwys: Cyweddu Strategaethau, Darpariaeth, Ariannol a Chydymffurfiaeth mae meini prawf allweddol eraill yn cynnwys: Dangosyddion a Chanlyniadau, Gwerth am Arian, Rheoli Gweithrediadau, Themâu  
Trawsbynciol, Addasrwydd Buddsoddiad, Cynaliadwyedd Tymor Hir

### **Gofynion allweddol eraill**

78. Fel arfer, ni fydd uchafswm cyfnod prosiect buddsoddi yn fwy na thair blynedd.

79. Ni fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb gymorth grant.

80. Swm y grant y gofynnir amdano yw'r cyllid llenwi bwlch isaf sy'n angenrheidiol i'r prosiect fynd rhagddo.

81. Mae'n rhaid i geisiadau ddangos eu bod wedi mynd i'r afael â'r canlynol hefyd:

- mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i dderbyn os oes angen hynny
- mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'i roi yn ôl yr angen
- i ymgeiswyr sy'n endidau cyfreithiol yn barod, rhaid cadarnhau hyfywedd economaidd y prosiect a'r busnes, trwy ddarparu cyfrifon ar gyfer y tair blynedd cyn dyddiad y cais, a rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod y prosiect
- bydd angen i endidau cyfreithiol newydd sbon ddarparu manylion llawn am gefndir a phrofiadau'r cyfarwyddwyr, ynghyd â thystiolaeth arall sy'n angenrheidiol i ddilysu'r cynllun busnes a chynigion y prosiect
- cydymffurfiaeth â chyfraith y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar gyfle cyfartal a dylai prosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol
- cydymffurfiaeth â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol yn ymwneud â'r amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a safonau iechyd a diogelwch (i gynnwys cymeradwyaeth gan Swyddog Lleol Iechyd yr Amgylchedd, lle bo hynny'n berthnasol)
- sicrhau bod y sgiliau a'r cymwyseddau technegol angenrheidiol ar gael yn y sefydliad sy'n gwneud y cais (endid cyfreithiol)
- cyrraedd neu ragori ar y sgôr 'Rhagorol' o dan fframwaith asesu amgylcheddol BREEAM, neu gyfer, ar gyfer pob adeilad newydd
- ceisio sicrhau allyriadau di-garbon ar gyfer pob adeilad newydd a adeiladwyd o 2011 ymlaen

## **SUT MAE GWNEUD CAIS**

82. Un o ofynion y Comisiwn Ewropeaidd yw na ddylid dewis prosiectau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 o dan system y cyntaf i'r felin. Er mwyn bodloni'r gofyniad hwn, y bwriad yw y bydd cynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 yn agor a chau ar gyfer ceisiadau yn gyfnodol gydol oes y rhaglen newydd, yn dibynnu ar y dyraniadau ariannol sydd ar gael i'r rhaglen.
83. Bydd y broses ymgeisio ar gyfer yr RCDF (yr un fath â phob un o gynlluniau economaidd-gymdeithasol Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020) yn broses ddau gam. Y cam cyntaf fydd Datganiad o Ddiddordeb (EOI). Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo gyda'u Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu gwahodd i gwblhau'r ail gam, sef cyflwyno cais llawn.
84. Bydd ceisiadau Datganiad o Ddiddordeb yn cael eu cyflwyno mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'i gilydd a disgwylir y bydd llawer o alw am y grant sydd ar gael. Gwahoddir sefydliadau'r trydydd sector a chyrff eraill megis colegau neu brifysgolion i gyflwyno ceisiadau amlinellol ar gyfer prosiectau. Bydd busnesau'n cael eu gwahodd i gyflwyno cynigion amlinellol ar gyfer buddsoddiadau newydd. Bydd y cynigion hynny yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf a fydd yn dangos gwerth disgwylidig y buddsoddiad neu'r prosiect a'r cyfraniad a ddisgwylir tuag at amcanion Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020.
85. Bydd manylion y ffenestr(i) ymgeisio EOI yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd y manylion yn cynnwys y dyddiadau agor a chau, y gyllideb ddangosol sydd ar gael ar gyfer pob ffenestr ac uchafswm disgwylidig yr EOIs a wahoddir i gyflwyno cais llawn.
86. Bydd y Datganiadau o Ddiddordeb yn cael eu sgorio a'u rhoi yn nhrefn teilyngdod yn unol â'r meini prawf dethol a gyhoeddwyd. Bydd cynigion prosiectau'n cael eu dewis yn ôl y drefn honno hyd nes y bydd yr arian sydd ar gael wedi'i ddyrannu neu fod uchafswm nifer y ceisiadau wedi'i gyrraedd. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd yr arian i gyd yn cael ei ddyrannu nac y bydd uchafswm nifer y ceisiadau yn cael eu gwahodd.
87. Mae manylion llawn am sut i wneud cais wedi'u hamlinellu yn y Nodiadau Cyfarwyddyd ar Ddatganiadau o Ddiddordeb, ac yn y ffurflen gais a'r meini prawf EOI sy'n benodol i'r Cynllun.
88. Ar ôl i gynnig prosiect gael ei ddewis yn y cam EOI, gwahoddir yr ymgeisydd i baratoi a chyflwyno cais llawn ar gyfer ei brosiect arfaethedig, ynghyd â dogfennau ategol megis cynllun datblygu busnes, cyfrifon blaenorol (os yn briodol), rhagolygon ariannol a llifau arian ac unrhyw wybodaeth angenrheidiol arall.

89. Rhaid i geisiadau llawn gael eu cyflwyno trwy borth Ar-lein Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Darperir canllawiau i bob ymgeisydd.
90. Rhaid i geisiadau yn yr ail gam fod yn gyson â'r cynnig a amlinellwyd yn y Datganiad o Ddiddordeb a gymeradwywyd.
91. Bydd y cais llawn yn cael ei arfarnu'n unol â Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun a'r rheolau ar gymhwysedd. Bydd yn destun arfarniad diwydrwydd dyladwy ac archwiliadau cymhwysedd llawn, a dim ond bryd hynny y gwneir penderfyniad terfynol i gynnig grant neu beidio. Ni ellir gwarantu y caiff prosiect a gynigir ei gymeradwyo ar gyfer grant. Byddwn yn gobeithio cwblhau arfarnu'ch cais llawn cyn pen 90 diwrnod gwaith ar ôl derbyn cais llawn. Efallai y bydd angen cyfnod hirach arnom wrth arfarnu prosiectau cymhleth, neu brosiectau ag iddynt broblemau cymhwysedd. Noder os oes oedi ar eich rhan wrth i chi ymateb i gais am wybodaeth bellach gall hyn ymestyn cyfnod arfarnu'ch cais.
92. **Ni chewch ddechrau ar unrhyw waith nes ichi dderbyn cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd unrhyw brosiectau sy'n torri'r rheol hon yn cael eu hystyried ar gyfer grant.**
93. Yn amodol ar ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, **bydd yr holl wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech chi fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a'r CE yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich sefydliad/cwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.**
94. Gallwch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os dymunwch, **ond mae'n rhaid i chi, ac nid yr ymgynghorydd, lofnodi'r ffurflen gais. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais wedi'i gwblhau'n gywir a bod y wybodaeth a ddarperir i gefnogi'ch prosiect yn gywir.**
95. Pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod wedi dod i law. Os yw eich prosiect yn anghymwys, cewch wybod hyn cyn gynted â phosibl. Os yw'ch cais yn gymwys, bydd yn cael ei arfarnu'n fanwl o safbwynt technegol ac ariannol. Ar ôl cwblhau'r arfarniad, bydd y cymorth ar gyfer eich cais yn cael ei werthuso yn erbyn y graddau y mae'n cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, fel y disgrifir uchod.
96. Mae tri chanlyniad posibl:
  - a. Nid yw'ch prosiect yn gymwys ar gyfer y grant. Cewch wybod hynny cyn gynted â phosibl



- b. Mae'ch prosiect yn gymwys i gael ei ystyried, ond nid yw'n cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Cewch wybod y rhesymau pam na fu eich cais yn llwyddiannus. Gallwch ymgeisio eto gyda'r un prosiect (gan ddiwygio'r cais os dymunwch) – **ar yr amod nad ydych wedi dechrau ar y gwaith.**
- c. Mae'ch prosiect yn gymwys ac yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Byddwch yn cael llythyr cymeradwyo yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad, a gofynnir i chi ei lofnodi fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau ac amodau. Bydd y llythyr hefyd yn eich awdurdodi i ddechrau ar y gwaith.
97. Fel yr Awdurdod Rheoli ar gyfer Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu a darparu prosiectau strategol o dan Fesur 7 y tu allan i'r broses hon.

### **MANYLION CYSWLLT**

98. Fel y disgrifir uchod, rhaid i bob cynnig dan arweiniad cymunedol gael ei drafod gyda Grŵp Gweithredu Lleol LEADER ar gyfer yr ardal ddaearyddol berthnasol cyn i Ddatganiad o Ddiddordeb gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae **Atodiad B** yn darparu'r manylion cyswllt ar gyfer y Grwpiau Gweithredu Lleol.

### **AMODAU'R GRANT**

99. Mae'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yn ddarostyngedig i ystod o ddeddfwriaeth berthnasol (gweler y nodiadau cyfarwyddyd ar wahân). Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynnnydd weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.
100. Mae'r grant a gynnigir o dan y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a amlinellir isod. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ganslo'ch dyfarniad a/neu adennill y symiau sydd eisoes wedi'u talu i chi, neu leihau cyfanswm y grant sy'n daladwy**

#### **Amodau:**

1. Rhaid derbyn y grant a ddyfernir o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad ar y llythyr cymeradwyo
2. Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilynol.

**Mae'n drosedd gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol.**

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

3. Ni ddylech ddechrau gweithio ar y prosiect hyd nes y byddwch wedi cael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru
4. Rhaid i chi fodloni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol a wnaed o dan gyfraith y DU a'r UE
5. Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru
6. Ni chewch gael gwared ar, trosglwyddo neu werthu unrhyw gyfarpar a/neu adeiladau a brynwyd gyda chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect ac am **bum mlynedd** ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect.
7. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y nodir yn y Nodyn Cyfarwyddyd perthnasol ar gyfer y Cynllun
8. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn y fformat cywir a chyda'r holl ddogfennau angenrheidiol. Fel arall, byddant yn cael eu gwrthod a'u dychwelyd i'r ymgeisydd.
9. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni allwch newid yr amserlen gytunedig na gwerth eich hawliadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru
10. Mae'n rhaid cyflwyno'r hawliad cyntaf **o fewn chwe mis** ar ôl dyddiad dechrau'r prosiect.  
  
**Os nad yw'r hawliad cyntaf yn cael ei wneud o fewn y cyfnod hwn, bydd y cynnig grant yn cael ei derfynu'n awtomatig.**
11. Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni allwch newid hyn heb gytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru
12. Rhaid i chi gadarnhau nad yw unrhyw un o'r eitemau a gwmpesir gan y cais yn eitemau amnewidiol o dan hawliad yswiriant.
13. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad ydych chi wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (o ffynonellau'r Undeb Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig).
14. Rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y cyfraniad a wnaed gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru at ei ariannu.

15. Rhaid i gofnodion ynghylch gweithgarwch yr ymgeisydd a'r gwaith o ddarparu'r prosiect, gan gynnwys anfonebau gwreiddiol a dogfennau perthnasol eraill megis dyfynbrisiau neu dendrau cystadleuol, gael eu cadw am o leiaf saith mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect fel y nodir yn y llythyr cymeradwyo grant .
16. Mae'n rhaid ichi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu'r prosiect. Ar gais, rhaid i chi ddarparu gwybodaeth a/neu fynediad at ddogfennau gwreiddiol mewn perthynas â'r prosiect.
17. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

**Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech chi fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru a'r CE yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw'ch busnes neu gwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.**

18. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cais mynegi diddordeb a cheisiadau llawn yn destun yr [Hysbysiad Preifatrwydd](#) Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut y mae Llywodraeth Cymru yn prosesu ac yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

### **Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus**

101. Mae Cyfarwyddebau Caffael y Gymuned Ewropeaidd yn berthnasol i gontractau a gyllidir neu a gyllidir yn rhannol gan Gronfeydd yr UE. Mae'r rheolau caffael llawn yn berthnasol i bob corff cyhoeddus a menter fasnachol yn y sector preifat sy'n derbyn cymorth grant o 50% neu fwy o gyfanswm costau'r prosiect ac eithrio TAW.
102. Efallai na fydd mudiadau'r trydydd sector nad ydynt yn cael eu cyllido na'u goruchwylio gan gyrff y sector cyhoeddus a mentrau masnachol yn y sector preifat sy'n cael cymorth grant sy'n llai na 50% o gyfanswm costau'r prosiect yn dod o dan Gyfarwyddebau Caffael y Gymuned Ewropeaidd, ond mae disgwyl iddynt ddefnyddio arferion teg ac agored yn yr un modd, gan gynnwys tendro cystadleuol, wrth brynu nwyddau neu wasanaethau fel rhan o weithgareddau prosiect sy'n cael cefnogaeth drwy Raglenni a gyllidir gan yr UE.

103. Ceir canllawiau am y gofynion sydd angen i bob ymgeisydd eu dilyn yn Nodiadau Cyfarwyddyd Technegol ar Dendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/docs/drah/publications/160704-competitive-tendering-andpublic-procurement-technical-guidance-notes-cy.pdf>

## **TALU GRANT**

### **Hawliadau**

104. Gallwch gyflwyno hawliadau interim yn ystod cyfnod eich prosiect. Bydd nodiadau cyfarwyddyd ynghylch sut i hawlio yn cael eu cyhoeddi pan gaiff y dyfarniad ei gadarnhau ac wedyn pan gewch eich gwahodd i hawlio. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi'i wneud a bod y gwaith wedi'i gwblhau yn unol â'r cynllun y bydd hawliadau'n cael eu talu. Bydd taliadau'n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.
105. Dylid cyflwyno hawliadau terfynol ar gyfer talu grant cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol ar y prosiect. Rhaid i bob hawliad terfynol ddod i law erbyn 30 Mehefin 2023 er mwyn i Lywodraeth Cymru allu gwneud y taliad. Os byddwch chi'n methu â chyflwyno hawliadau, efallai y bydd y grant a dalwyd yn cael ei adennill.
106. Yn ystod oes y grant, pan fo hawliadau'n cael eu cyflwyno, efallai y byddant yn cael eu harchwilio i sicrhau bod gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Yn ystod y prosiect ymwelir â'r safle a chynhelir asesiad manwl o'r prosiect. Mae'r wybodaeth a fydd yn ofynnol yn ystod yr ymweliad yn cynnwys anfonebau gwreiddiol - rhifau cyfresol/offer - tystysgrif gwblhau Rheoliadau Adeiladu (os yn briodol) - system lechyd a Diogelwch gan gynnwys dadansoddiad risg, dogfennau Asesiad Risgiau Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, cofnodion y drefn lanhau, cofnodion rheoli plâu a chofnodion Rheoli Ansawdd. Caiff y grant ei dalu ar yr amod y gwneir cynnydd digonol.

### **Hawliadau anghywir a chosbau**

107. Mae gennych chi gyfrifoldeb i sicrhau bod pob hawliad sy'n cael ei gyflwyno yn rhifyddol gywir; ei fod ar gyfer gwariant sydd wedi'i wneud (bod yr arian wedi gadael eich cyfrif banc), bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad ar amser.
108. Os yw'r hawliad yn anghywir, bydd eich hawliad yn cael ei leihau i'r cyfanswm cymwys a bydd y grant i'w dalu yn cael ei gyfrifo yn unol â hynny. Fodd bynnag, os yw'r camgymeriad yn fwy na 10% o'r cyfanswm sy'n cael ei hawlio, yna bydd cosb ariannol fel y disgrifir isod.

109. Bydd swm y gwariant cymwys yn cael ei ostwng yn ôl swm y camgymeriad ac felly bydd cyfanswm y grant i'w dalu yn is na'r disgwyl. Bydd yn rhaid ichi dalu'r gwahaniaeth gan na ellir cynnwys y grant a gollwyd mewn hawliadau diweddarach.
110. Os oes gennych chi unrhyw amheuan ynglŷn â chymhwyster unrhyw wariant, rhaid i chi wirio cyn **i chi fynd i gostau.**

### **Troseddau**

111. Mae Rheoliad 13 o Reoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014 (Rhif 3222 (Cy.327)) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag elfennau penodol o gyllid datblygu gwledig. Mae'r Rheoliad hwnnw a'r troseddau hynny yn berthnasol i'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig. Mae enghreifftiau o droseddau yn cynnwys darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, yn fwriadol neu'n fyrbwyll, mewn perthynas â chyllid datblygu gwledig; rhwystro arolygydd neu swyddog; a gwrthod darparu gwybodaeth ar gais.

### **MONITRO PROSIECTAU**

112. Mae'n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a bod ei lwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl ei gwblhau. Bydd gofyn i chi ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei gynnydd ac adroddiad terfynol ar ei berfformiad dri mis ar ôl ei gwblhau pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau sydd yn y cais a gymeradwywyd. Os na fydd y prosiect yn cyrraedd y targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, ni fyddai'n gymwys i gael cymorth grant o dan y cynllun, gellid cymryd camau i adennill y grant sydd wedi'i dalu.
113. Ar ôl derbyn y grant, bydd hi'n ofynnol bod y cyfarpar a brynwyd gyda chymorth grant trwy'r Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig ac unrhyw adeiladau y telir grant arnynt yn cael eu cadw yn y fan a'r lle, yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio at yr un diben ag a amlinellwyd yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd o ddyddiad cwblhau'r prosiect. Bydd hyn yn sicrhau hirhoedledd y prosiect ac yn sicrhau y bydd cynhyrchwyr cynradd yn gallu elwa ar fanteision y prosiect yn y tymor hir.
114. Bydd angen llenwi ffurflen fonitro arall ddwy flynedd ar ôl cwblhau'r prosiect, ac eto bum mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect. Ymwelir â chanran o'r prosiectau a gymeradwywyd o fewn pum mlynedd i ddyddiad cwblhau'r prosiect i sicrhau bod yr ymgeisydd yn dal i ddefnyddio'r adeiladau a'r cyfarpar a brynwyd gyda'r grant at yr un dibenion a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.
115. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, arolygu'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwn o bum mlynedd.

## **DIWEDD Y GRONFA DATBLYGU CYMUNEDAU GWLEDIG**

116. Rhaid i bob hawliad gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2023. Mae'n rhaid cwblhau holl weithgarwch y prosiect mewn da bryd i'r cyfrifon a'r cofnodion gael eu harchwilio ac i hawliadau gael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwn.

## **GWEITHDREFN APELIO**

117. Ni fydd proses apelio yn y cam Datgan Diddordeb gan na fydd penderfyniad ffurfiol i wrthod y cynnig wedi'i wneud. Nid yw'r prosiect wedi'i wrthod yn barhaol - y cyfan sydd wedi digwydd yw nad yw wedi cael sgôr mor uchel â'r lleill ac nad yw wedi mynd heibio'r trothwy y tro hwn. Gellir ailgyflwyno cynigion aflwyddiannus mewn cyfnodau Datgan Diddordeb eraill yn y dyfodol.
118. Os bydd cais cyfan yn cael ei wrthod, bydd y rhesymau dros hynny'n cael eu hamlinellu'n glir. Byddwn yn barod i drafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.
119. Os bydd y cais yn dal yn annigonol, sefydlir gweithdrefn apelio ar ffurf cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i bobl a benodir gan Weinidogion Cymru ond sy'n annibynnol arnynt.
120. Nid oes trefn ar gyfer apelio wrth Ddatgan Diddordeb gan nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud eto. Darperir adborth

## **Y DREFN GWYNO**

121. Os ydych chi'n teimlo nad ydym wedi dilyn y drefn gywir wrth ddelio â'ch cais efallai yr hoffech wneud cwyn yn unol â Pholisi Cwynion Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post neu ar y wefan yn:

[http://gov.wales/contact\\_us/makeacomplaint/complaintspolicy/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/contact_us/makeacomplaint/complaintspolicy/?skip=1&lang=cy)

**ATODIAD A**

## **RHESTR O WARDIAU CYMWYS**

**Derbynnir ceisiadau ar gyfer yr RCDF gan y wardiau Gwledig a'r wardiau Canolfan Wasanaethu isod yn unig:**

☐ **CBS Abertawe**

### **Wardiau Gwledig**

Fairwood

Llandeilo Ferwallt

Mawr

Pennard

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 30 of 54

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Gŵyr                      Llangyfelach                      Penclawdd                      Pontarddulais

### **Canolfannau Gwasanaethu**

Clydach                      Gorseinon                      Tre-gŵyr

#### • **CBS Blaenau Gwent**

##### **Wardiau Gwledig**

Cwm

##### **Canolfan Wasanaethu**

Llanhilledd

#### • **CBS Bro Morgannwg**

##### **Wardiau Gwledig**

Y Bont-faen Dinas Powys Gwenfô	Llanbedr-y-fro Llandŵ/Ewenni Llanilltud Fawr	Y Rhws Sain Tathan	Sant-y-brid Sili
--------------------------------------	--	-----------------------	---------------------

#### □ **CBS Caerffili**

##### **Wardiau Gwledig**

Argoed Bedwas, Tretomas	Cwm Darren Llanbradach	Nelson Sant Catwg	Twyn Carno Ynysddu
a Machen Crymlyn Cwm Aber	Maesycwmer Moriah	Sant Iago Tredegar Newydd	

##### **Wardiau Canolfan Wasanaethu**

Aberbargoed                      Penyrheol                      Trecelyn

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Abercarn

Pontlotyn

Ystrad Mynach

### □ **Casnewydd**

#### **Wardiau Gwledig**

Llanwern

Maerun

#### **Canolfan Wasanaethu**

Graig

Caerllion

Langstone

### □ **CBS Castell-nedd Port Talbot**

#### **Wardiau Gwledig**

Aberdulais

Crynant

Godre'r graig

Pontardawe

Blaendulais

Blaengwrach

Cwmllynfell

Gwauncaegurwen

Resolfen

Brynaman Isaf

Cymer

Gwynfi

Rhos

Bryn a Cwmafon

Dyffryn

Margam

Tai-bach

Bryn-coch - Gogledd

Glyncorrwg

Onllwyn

Ystalyfera

Coedffranc - Gorllewin

Glyn-nedd

Pelenna

#### **Wardiau Canolfan Wasanaethu**

Trebannws

Allt-wen

### □ **CBS Ceredigion**

#### **Wardiau Gwledig**

Aberaeron

Beulah

Llandyfriog

Lledrod

Aberporth

Borth

Llandysiliogogo

Melindwr

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 32 of 54



## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Aberteifi - Mwldan	Capel Dewi	Llandysul	Ceinewydd
Aberteifi - Rhyd-y-Fuwch	Ceulan-y-maes-mawr	Llanfarian	Penbryn
Aberteifi - Teifi	Ciliau Aeron	Llanfihangel Ystrad	Pen-parc
Aberystwyth	Faenor	Llangeitho	Tirymynach
Bronglais			
Aberystwyth Canol	Llanbedr Pont Steffan	Llangybi	Trefeurig
Aberystwyth	Llannarth	Llanrhystud	Tregaron
Gogledd Aberystwyth	Llanbadarn Fawr - Padarn	Llansantffraid	Troed-yr-aur
Penparcau Aberystwyth Rheidol	Llanbadarn Fawr - Sulien	Llanwenog	Ystwyth

### ☐ CBS Conwy

#### Wardiau Gwledig

Betws-y-coed	Crwst	Llangernyw	Uwch Conwy
Betws-yn-Rhos	Eglwysbach	Llansanffraid	Uwch Aled
Caerhun	Gele	Llansannan	
Capel Ulo	Gower	Trefriw	
Bryn Pandy			
Pant-yr-afon/Penmaenan			
Conwy			

#### Wardiau Canolfan Wasanaethu

Pen-sarn	Deganwy
Penrhyn	Llanddulas
Craig-y-Don	Marl

### ☐ CBS Gwynedd

#### Wardiau Gwledig

Aberdaron	Cricieth	Llandderfel	Penygroes
-----------	----------	-------------	-----------

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 33 of 54

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Aberdyfi	Cwm-y-Glo	Llanengan	Dwyrain Porthmadog
Aber-erch	Deiniolen	Llangelynin	Gorllewin Porthmadog
Abermo	Diffwys a Maenofferen	Llanllyfni	Porthmadog Tremadog
Abersoch	Dolbenmaen	Llanrug	Gogledd Pwllheli
Arllechwedd	Gogledd Dolgellau	Llanuwchllyn	De Pwllheli
y Bala	De Dolgellau	Llanwnda	Seiont
Bethel	Dyffryn Ardudwy	Llanystumdwy	Talysarn
Bontnewydd	Efail-newydd/Buan	Menai (Caernarfon)	Teigl
Botwnnog	Y Felinheli Gerlan	Morfa Nefyn	Trawsfynydd
Bowydd a Rhiw	Groeslon	Nefyn	Tregarth a Mynydd Llandygai
Brithdir a Llanfachreth/ Ganllwyd/ Llanelltyd Bryn-crug/	Harlech	Ogwen	Tudweiliog
Llanfihangel	Llanaelhaearn	Peblig (Caernarfon) Tywyn	
Cadnant	Llanbedr	Penisarwaun	Waunfawr
Clynnog	Llanbedrog	Penrhyndeudraeth	
Corris/Mawddwy	Llanberis	Pentir	

### Wardiau Canolfan Wasanaethu

Deiniol	Garth	Hendre	Marchog
Dewi	Glyder	Hirael	Menai (Bangor)

### □ CBS Merthyr Tudful

### Wardiau Gwledig

Bedlinog	Cyfarthfa	Y Faenor	Ynysowen
----------	-----------	----------	----------

### Canolfannau Gwasanaethu

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 34 of 54

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Plymouth

### □ CBS Pen-y-bont ar Ogwr

#### Wardiau Gwledig

Abercynffig	Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr	Drenewydd yn Notais	Nant-y-moel
Blaengarw Bryncethin	Coety Corneli	Dyffryn Ogwr Llangeinwyr Llangynwyd	Pontycymer Pen-prysg Ynysawdre
Y Betws	Cefn Cribwr	Melin Ifan Ddu	

#### Wardiau Canolfan Wasanaethu

Felindre	Sarn	Bryncoch	Hendre
----------	------	----------	--------

### □ CBS Powys

#### Wardiau Gwledig

Aber-craf	y Drenewydd - Gorllewin / Llanllwchaearn	Llanfair Caereinion	Pencairg
Aberriw	Dyserth a Threcoed	Llanfair-ym-Muallt	Rhaeadr
Banwy	Felin-fâch	Llanfihangel	Rhiwcynon
Bugeildy	Ffordun	Llanfyllin	St. David Within
Blaen Hafren	Y Gelli Gandryll	Llangadog	St. John
Bronllys	Glantwymyn	Llan-gors	St. Mary
Bwlch	Gwernyfed	Llangynllo	Talgarth
Caersws	Llanafanfawr	Llangynidr	Tal-y-bont ar Wysg
Cegidfa	Llanandras	Llanidloes	Tawe-Uchaf
Ceri	Llanbadarn Fawr	Llanllŷr	y Trallwng - Castell
Y Clas-ar-Wy	Llanbrynmair	Llanrhaeadr-ym- Mochnant/Llansilin	Y Trallwng Gungrog
Crucywel	Llandinam	Llansantffraid	Y Trallwng Llanerchydol

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 35 of 54

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Cwm-twrch	Llandrindod - De Llandrindod - Dwyrain /	Llanwddyn	Trefaldwyn
Dolforwyn	Llandrindod - Gorllewin	Llanwrtyd	Trefyclo
y Drenewydd - Canol	Llandrindod Gogledd	Machynlleth	Trewern
y Drenewydd - De	Llandrinio	Maescar/Llywel	Ysgir
y Drenewydd Dwyrain	Llandysilio	Meifod	Yr Ystog
y Drenewydd- Gogledd/ Llanllwchaearn	Llanelwedd	Nantmel	

### Wardiau Canolfan Wasanaethu

Ynyscedwyn	Ystradgynlais
------------	---------------

### □ CBS Sir Benfro

#### Wardiau Gwledig

Aberdaugleddau: Canol	Cilgerran	Hwlfordd: Prendergast	Penalun
Aberdaugleddau: Dwyrain	Cilgeti/Begeli	Hwlfordd: Priordy	Penfro: De St. Mary
Aberdaugleddau: Gogledd	Clydau	Johnston	Penfro: Monkton
Aberdaugleddau: Gorllewin	Crymych	Llanbedr Felffre	Penfro: Gogledd St. Mary
Aberdaugleddau: Hakin	Dinas	Llandudoch	Penfro: St. Michael
Aberdaugleddau: Hubberston	Dinbych-y-pysgod: De	Llandyfái Treletert	Rudbaxton
Abergwaun - Gogledd-ddwyrain	Dinbych-y-pysgod: Gogledd	Llangwm	Saundersfoot
Abergwaun - Gogledd-orllewin	Doc Penfro: Canol	Llanismel	Scleddau
Amroth	Doc Penfro: Llanion	Llanrhian	Solfach
Arberth	Doc Penfro: Marchnad	Maenclochog	The Havens

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 36 of 54

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Arberth Wledig Burton	Doc Penfro: Pennar Hundleton	Maenorbŷr Martletwy	Trefdraeth Trewiliam - Dwyrain
Caeriw	Hwlfordd: Castell	Merlin's Bridge	Tyddewi
Camros Cas-wis	Hwlfordd: Garth Hwlfordd: Portfield	Neyland: Dwyrain Neyland: Gorllewin	Wdig

### ☐ CBS Sir Ddinbych

#### Wardiau Gwledig

Bodelwyddan	Efenechdyd	Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern	Rhuddlan
Corwen	Llanarmon-yn- lâl/Llandegla	Llangollen	Rhuthun
Canol Dinbych	Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal	Llanrhaeadr-yng- Nghinmeirch	Trefnant
Dinbych Isaf Dinbych Uchaf/Henllan	Llandrillo Llandyrnog	Llanelwy - Dwyrain Llanelwy - Gorllewin	Tremeirchion

#### Canolfan Wasanaethu

Dyserth

### ☐ CBS Sir Fynwy

#### Wardiau Gwledig

Brynbuga Caerwent Crucornau Devauden Dixton gydag	Goetre Fawr Llanarfan Llanbadog Llandeilo Gresynni	Llangybi Fawr Llanofer Llanwenarth Ultra Maerdy	Rogiet Rhaglan The Elms Trelech United
Osbaston Drenewydd Gelli	Llanelli Hill	Mill	Wyesham
Drybridge	Llanfihangel Troddi Llan-ffwyst Fawr	Overmonnow farch Porth Sgiwed	

#### Wardiau Canolfan Wasanaethu

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 37 of 54

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Cantref Castell	Llanddewi Green Lane	Lansdown Larkfield Priordy	St. Kingsmark St. Mary`s
Castell Cil-y-coed	Grofield		Thornwell
Croesonen	Hafren	St. Christopher`s	West End

### □ CBS Sir y Fflint

#### Wardiau Gwledig

Brynffordd	Gronant	Mostyn	Treuddyn Yr Wyddgrug Broncoed
Caergwrle	Gwernaffield	Mynydd Bwcle	
Caerwys	Gwernymynydd	Neuadd Llaneurgain	Yr Wyddgrug - De
Cilcain Coed-llai	Helygain	New Brighton	Yr Wyddgrug - Dwyrain
Chwitffordd	Higher Kinnerton	Penyffordd	Yr Wyddgrug - Gorllewin
Ffynnongroyw	Yr Hob	Saltney Cyffordd yr Wyddgrug	
Y Fflint Oakenholt	Llaneurgain	Sealand	
Y Fflint Trelawnyd	Llanfynydd	Trelawnyd a Gwaunysgor	

#### Wardiau Canolfan Wasanaethu

Canol Treffynnon	Dwyrain Treffynnon	Gorllewin Treffynnon
------------------	--------------------	-------------------------

### □ CBS Sir Gâr

#### Wardiau Gwledig

Abergwili		Llan-non
Cenarth	Llanboidy	Llansteffan
Cilycwm	Llanddarog Llandeilo	Llanybydder Maenordeilo a Salem
Cydweli	Llanymddyfri Llandybie	Pen-bre Pontyberem
Cynwyl Elfed	Llanegwad	Cwarter Bach Llanismel
Cynwyl Gaeo	Llanfihangel Aberbythych	

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 38 of 54

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Garnant	Llanfihangel-ar-arth	Sanclêr
Glanaman	Llangadog	Talacharn Trelech
Glyn Gorslas	Llangeler Llangynnwr	Tref Caerfyrddin - De Tref Caerfyrddin - Gogledd Tref Caerfyrddin - Gorllewin
Hendy Hendy-gwyn ar Daf	Llangyndeyrn	Trimsaran

### **Canolfan Wasanaethu**

Betws	Porth Tywyn	Tycroes
Penygroes	Rhydaman	
Pontaman	Saron	

### **☐ CBS Rhondda Cynon Taf**

#### **Gwledig**

Maerdy	Rhigos	Ynys-y-bŵl
--------	--------	------------

### **☐ CBS Torfaen**

#### **Wardiau Gwledig**

De Llanyrafon	Blaenafon	Two Locks
---------------	-----------	-----------

#### **Wardiau Canolfan Wasanaethu**

Abersychan Cwmbrân Uchaf	Cwm-ynys-cou	Llantarnam	Wainfelin
-----------------------------	--------------	------------	-----------

### **☐ CBS Wrecsam**

#### **Wardiau Gwledig**

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 39 of 54

## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Bronington	Gresffordd - Dwyrain a Gorllewin	Marchwial	Pen-y-cae a De Rhiwabon
Brymbo	Gwenfro Gwersyllt -	Marford a Hoseley	Ponciau
Bryn Cefn Dyffryn Ceiriog Coed-poeth Esclus	Gogledd Holt Llangollen Wledig Llai	Mwynglawdd Yr Orsedd Owrtyrn	Rhiwabon Y Waun - De Y Waun - Gogledd

### Wardiau Canolfan Wasanaethu

Cefn

### □ CBS Ynys Môn

### Wardiau Gwledig

Aberffro Porth Amlwch	Cefni Cwm Cadnant	Llanfaethlu Llanfair-yn-Neubwll	Morawelon Parc a'r Mynydd
Amlwch Wledig	Cyngar	Llanfihangel Ysgeifiog	Pentraeth
Biwmares Bodffordd Bodorgan Braint Bryngwran Brynteg Cadnant	Gwyngyll Tref Caergybi Kingsland Llanbadrig Llanbedrgoch Llanddyfnan Llaneilian	Llangoed Llanidan Llannerch-y-medd Ffordd Llundain Maeshyfryd Mechell Moelfre	Porthyfelin Rhosneigr Rhosyr Trearddur Tudur Tysilio Y Fali

### ATODIAD B

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 40 of 54



**MANYLION CYSWLLT CYRFF GWEINYDDOL GRWPIAU GWEITHREDU LLEOL  
(Grwpiau LAG) LEADER**

Mr Dafydd Gruffydd [dafydd@mentermon.com](mailto:dafydd@mentermon.com)

Ynys Môn  
Partneriaeth Wledig Ynys Môn  
Menter Môn Cyf  
Neuadd y Dref  
Sgwar Bulkeley  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7LR

Ms Rhiannon Hardiman

[Rhiannon.Hardiman@bridgend.gov.uk](mailto:Rhiannon.Hardiman@bridgend.gov.uk)

Pen-y-bont ar Ogwr  
Grŵp Gweithredu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (Reach)  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Rhaglen Datblygu Gwledig a Chefn Gwlad  
Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  
Stryd yr Angel  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF31 4WB

Mr Gavin Jones

[Jonesgm2@caerphilly.gov.uk](mailto:Jonesgm2@caerphilly.gov.uk)

Caerffili  
Grŵp Gweithredu Lleol Caerffili a Blaenau Gwent  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili d/o  
Tŷ Pontllan-fraith  
Pontllan-fraith  
Y Coed Duon  
NP12 2YW

Ms Rhian Phillips

[mrphillips@cararthenshire.gov.uk](mailto:mrphillips@cararthenshire.gov.uk) Caerfyrddin

Grŵp Gweithredu Lleol Sir Gâr - Grŵp Cefn Gwlad  
Cyngor Sir Gaerfyrddin  
Canolfan Ewropeaidd Gorllewin Cymru  
Adeilad Dewi  
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant  
Caerfyrddin  
SA31 3EP

Ms Meleri Richards

[Meleri.Richards@ceredigion.gov.uk](mailto:Meleri.Richards@ceredigion.gov.uk)

Ceredigion

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 41 of 54

Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Cynnal y Cardi  
Cyngor Sir Ceredigion  
Neuadd Cyngor Ceredigion  
Penmorfa  
Aberaeron  
Ceredigion  
SA46 0PA

Ms Elen Edwards  
[Elen.Edwards@conwy.gov.uk](mailto:Elen.Edwards@conwy.gov.uk)  
Conwy Grŵp Gweithredu  
Lleol Conwy  
Rhaglen Datblygu Gwledig Conwy  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy  
Glasdir  
Plas Yn Dre  
Llanrwst  
Conwy  
LL32 0DF

Ms Lowri Owain  
[Lowri.Owain@Cadwynclwyd.co.uk](mailto:Lowri.Owain@Cadwynclwyd.co.uk)  
Sir Ddinbych  
Cadwyn Clwyd Cyfyngedig  
Llys Clwyd  
Parc Busnes Lôn Parcwr  
Rhuthun  
Sir Ddinbych  
LL15 1NJ

Ms Lowri Owain  
[Lowri.Owain@Cadwynclwyd.co.uk](mailto:Lowri.Owain@Cadwynclwyd.co.uk)  
Sir y Fflint  
Cadwyn Clwyd Cyfyngedig  
Llys Clwyd  
Parc Busnes Lôn Parcwr  
Rhuthun  
Sir Ddinbych  
LL15 1NJ

Dafydd Gruffydd  
[Dafydd@Mentermon.com](mailto:Dafydd@Mentermon.com) Gwynedd

Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd  
Menter Môn Cyf. Swyddfa Annog  
146 Stryd Fawr  
Porthmadog  
Gwynedd  
LL49 9NU

Ms Joanne Nicholas  
[Joanne.nicholas@Merthyr.gov.uk](mailto:Joanne.nicholas@Merthyr.gov.uk)  
Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf  
Grŵp Gweithredu Lleol Cwm Taf  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful  
Uned 5  
Parc Busnes Triongl  
Pentre-bach  
Merthyr Tudful  
CF48 4TQ

Mr Michael Powell  
[Michael.Powell@monmouthshire.gov.uk](mailto:Michael.Powell@monmouthshire.gov.uk)  
Sir Fynwy a Chasnewydd  
Dyffryn Wysg  
Cyngor Sir Fynwy  
@Innovation House  
Parc Busnes Cymru 1  
Magwyr  
NP26 3DG

Mr Ben Riseborough  
[b.riseborough@npt.gov.uk](mailto:b.riseborough@npt.gov.uk) Castell-nedd  
Port Talbot  
Adfywio Castell-nedd Port Talbot  
Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot  
Datblygu Partneriaethau a Chymunedau  
The Quays  
Brunel Way  
Parc Ynni Baglan  
Llansawel  
Castell-nedd  
SA11 2GG

Mr Cris Tomos  
[leader@planed.org.uk](mailto:leader@planed.org.uk) Sir  
Benfro

Fersiwn: 10  
Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017  
Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 43 of 54

Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

Arwain Sir Benfro  
Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro dros Fenter a Datblygu Ltd  
Yr Hen Ysgol  
Ffordd yr Orsaf  
Arberth  
Sir Benfro  
SA67 7DU

Ms Jenni Thomas  
[rdp@powys.gov.uk](mailto:rdp@powys.gov.uk) Powys  
Grŵp Gweithredu Lleol Powys yn Un  
Cyngor Sir Powys  
Y Gwalia  
Ffordd Ithon  
Llandrindod  
Powys  
LD1 6AA

Mr Elliot Williams  
[Elliot.Williams@Swansea.gov.uk](mailto:Elliot.Williams@Swansea.gov.uk)  
Abertawe  
Partneriaeth Datblygu Gwledig Abertawe  
Cyngor Dinas a Sir Abertawe  
Heol Ystumllwynarth  
Abertawe  
SA1 3SN

Ms Nikki Williams  
[nikki.williams@Torfaen.gov.uk](mailto:nikki.williams@Torfaen.gov.uk) Torfaen  
Grŵp Gweithredu Lleol Torfaen – Create  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Y Ganolfan Ddinesig  
Pont-y-pŵl  
Torfaen  
NP4 6YB

Mr Phil Chappell  
[Prchappell@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:Prchappell@valeofglamorgan.gov.uk)  
Bro Morgannwg

Cymunedau Gwledig Creadigol Grŵp  
Gweithredu Lleol Bro Morgannwg  
Cyngor Bro Morgannwg  
Yr Hen Neuadd  
Stryd Fawr  
Y Bont-faen  
Bro Morgannwg  
CF71 7AH

Ms Lowri Owain  
[Lowri.Owain@Cadwynclwyd.co.uk](mailto:Lowri.Owain@Cadwynclwyd.co.uk)  
Wreccsam  
Cadwyn Clwyd Cyfyngedig  
Llys Clwyd  
Parc Busnes Lôn Parcwr  
Rhuthun  
Sir Ddinbych  
LL15 1NJ  
ATODIAD C

## **LEADER, GRWPIAU GWEITHREDU LLEOL A STRATEGAETHAU DATBLYGU LLEOL**

122. Mae Grwpiau LAG yn defnyddio cyllid LEADER o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 er mwyn ymgysylltu â'u cymunedau, nodi'r rhwystrau i ddatblygu sy'n eu hwynebu a'r cyfleoedd sydd ar gael, meithrin gallu, treialu atebion posibl a rhannu canlyniadau'r treial. Trwy eu gwaith, efallai y gwneir cynigion cymunedol y gall y LAG eu hatgyfeirio at yr RCDF.
123. Rhaid i bob ymgeisydd ar lefel gymunedol drafod ei syniadau a'i gynigion gyda Grŵp Gweithredu Lleol (LAG) ei ardal cyn cyflwyno ei gais i Lywodraeth Cymru.
124. Bydd y LAG yn asesu a yw'r cais yn cyfateb i'r blaenoriaethau yn ei Strategaeth Datblygu Lleol (LDS) gymeradwy ar gyfer ei ardal ac yn helpu i ddatblygu'r cynigion os bydd angen.
125. Yr LDS yw'r ddogfen allweddol ar gyfer pob ardal LAG LEADER. Mae'n amlinellu, mewn fformat cyson, esboniad manwl o'r ardal, dadansoddiad o'r ardal honno trwy asesiad SWOT, cyfres o nodau ac amcanion ar gyfer yr ardal a chynigion ar gyfer gweithgareddau neu fentrau a fyddai'n bodloni'r nodau a'r amcanion hynny.
126. Bydd yr LDS yn cael ei hadolygu bob blwyddyn o leiaf, gydol cyfnod Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru

2014-2020. Mae'n rhaid i'r LDS ategu, nid dyblygu, amcanion polisi strategol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac mae'n rhaid cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac Ewrop.

## **ATODIAD D**

### **DIFFINIAD O BBACH**

Ystyr BBaCh yw busnes sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr cyflogedig (cyfwerth ag amser llawn) ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 50 miliwn ewro a/neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na 43 miliwn ewro. Dylid trin staff rhan amser a gweithwyr tymhorol fel ffracsiwn cyfwerth ag amser llawn.

- Mae BBaChau yn cynnwys 3 is-gategori o fentrau: micro, bach a chanolig.
- Mae microfusnesau yn cyflogi llai na 10 o weithwyr cyflogedig, mae busnesau bach yn cyflogi llai na 50 o weithwyr cyflogedig ac mae busnesau canolig yn cyflogi llai na 250 o weithwyr cyflogedig.
- Mae maint y busnes hefyd yn cyfeirio at y trosiant blynyddol a'r fantolen flynyddol mewn rhai sefyllfaoedd.

I gael diffiniad llawn, darllenwch ganllaw'r Comisiwn Ewropeaidd, 'The new SME definition'.

## **ATODIAD E PWRPAS AC AMCANION YR RCDF AC YMYRIADAU POSIBL**

1. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i helpu i ddatblygu gwydnwch a gallu ein cymunedau fel eu bod yn gallu ymdopi â'r straen sy'n gysylltiedig â diwygio lles a'u bod yn parhau i dyfu a ffynnu. Rydym yn cydnabod y bydd yr heriau sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn tldi mewn cymunedau gwledig yn wahanol i'r heriau yn ardaloedd mwyaf poblog Cymru ac rydym wedi ymrwymo i addasu ein hymateb a'n hatebion i ddiwallu anghenion lleol.
2. Bydd y dull hwn yn galluogi arweinwyr lleol i asesu anghenion a darpariaeth a bydd yn darparu fframwaith cenedlaethol i sicrhau bod yr un mathau o ymyriadau ar gael ledled Cymru.
3. Rydym yn cydnabod yr angen am gymysgedd o raglenni ar sail ddaearyddol a rhai sy'n targedu unigolion, waeth ble maen nhw'n byw. Er mwyn helpu i wella bywydau pobl sy'n byw mewn tldi, gwyddom fod yna amryw o ymyriadau sy'n gallu cael yr effaith fwyaf. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - helpu pobl i ddod o hyd i waith
  - cefnogi pobl i ennill mwy o gyflog unwaith y cânt waith (trwy gynyddu nifer yr oriau a weithir a gwella sgiliau)
  - canolbwyntio ar wella blynyddoedd cynnar bywydau pobl.
4. Yn ogystal, mae angen rhoi sylw i'r agweddau penodol canlynol ar dldi gwledig:
  - mynediad at wasanaethau
  - tldi tanwydd
  - tldi mewn gwaith
  - allgáu digidol
5. Mae rhai teuluoedd yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at ofal plant oherwydd amseroedd agor anhyblyg, diffyg gwyliau a gofal cofleidiol a bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn aml, mae'r problemau hyn yn waeth i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae problemau penodol yn ymwneud â theithio pellteroedd maith i gael mynediad at ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys nifer y llefydd, dewis a'r math o ofal plant sydd ar gael, yn ogystal â phroblemau economaidd sy'n benodol i ardaloedd gwledig sy'n effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau gofal plant. Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n fwy anodd i deuluoedd (ac yn enwedig menywod fel ail enillwyr) weithio, ac mae'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd teuluoedd yn byw mewn tldi.
6. Mae mynediad at wasanaethau ariannol a chynghor yn gallu bod yn anoddach i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig oherwydd problemau teithio a chostau tanwydd. Amlygodd Adolygiad Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Cynghori, a gynhaliwyd ym mis Mai 2013, bwysigrwydd hyblygrwydd mewn ymatebion. Mae'r defnydd o wasanaethau ffôn a chyswllt fideo yn arbennig o

fuddiol i'r rhai mewn ardaloedd gwledig, a gall y rhain gael eu hategu gan wasanaethau allgymorth i ardaloedd gwledig er mwyn dod â'r cyngor i bentrefi a threfi marchnad.

7. Mae allgáu digidol yn gallu bod yn broblem fawr mewn cymunedau gwledig, yn enwedig ymhlith y rhai ar incwm isel. Mae teuluoedd ar incwm isel yn llai tebygol o fod â mynediad at y rhyngwrwd yn eu cartref. Mae mynediad gwael at fand eang o safon yn gwaethgu'r broblem hon mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, mae allgáu digidol yn gallu arwain at arwahanrwydd cymdeithasol o gymunedau lleol. Yn ogystal, mae pobl o gymunedau difreintiedig mewn ardaloedd gwledig yn ei chael hi'n fwy anodd cael mynediad at ddarpariaeth rhyngwrwd gyhoeddus am ddim mewn llyfyrdd megis llyfrgelloedd oherwydd bod llai o lefydd o'r fath mewn ardaloedd gwledig o'u cymharu ag ardaloedd mwy trefol ac oherwydd cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus llai hygyrch a phellteroedd teithio hirfaith.
8. Dyma dri amcan yr RCDF:
  4. Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.
  5. Helpu'r rhai mwyaf difreintiedig yn y Gymru wledig a'r rhai nad oes ganddynt lawer o gyfle i newid eu hamgylchiadau.
  6. Datblygu gwydnwch a gallu cymunedau gwledig fel eu bod yn gallu ymdopi'n well â newid ac addasu i'r newid hwnnw.
9. Bydd meysydd allweddol ar gyfer ymyrraeth yn cynnwys:
  - llunio cynlluniau datblygu cymuned / pentref er mwyn gwella gwydnwch a chynaliadwyedd a mynd i'r afael ag anghenion lleol allweddol a thlodi ar ei ffurf ehangaf
  - buddsoddiadau mewn seilwaith ar raddfa fach, gan gynnwys ynni adnewyddadwy
  - buddsoddiad mewn darpariaeth TGCh, gan gynnwys band eang y genhedlaeth nesaf a chynhwysiant digidol;
  - buddsoddiadau mewn gwasanaethau sylfaenol lleol i wella mynediad, cynyddu nifer y gwasanaethau anstatudol megis gofal plant a helpu i ddatblygu opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau trwy fodolau mentrau cymdeithasol dan arweiniad lleol
  - mynediad at wasanaethau cyngor a gwybodaeth am wasanaethau ariannol
  - trafniadaeth wledig lle gall arbedion maint ofyn am ymyrraeth ranbarthol mewn mentrau trafniadaeth wledig, gyda chymorth arweinyddiaeth gymunedol ac i helpu i fynd i'r afael â materion lleol penodol
  - buddsoddiadau mewn seilwaith hamdden / twristiaeth sy'n gysylltiedig â rhagolygon iechyd, addysg neu gyflogaeth i aelwydydd ar incwm isel



## Y Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig – Nodiadau Cyfarwyddyd

- astudiaethau neu fuddsoddiadau mewn treftadaeth ddiwylliannol a naturiol sy'n gysylltiedig â rhagolygon iechyd, addysg neu gyflogaeth i aelwydydd ar incwm isel
- buddsoddiadau mewn adleoli gweithgareddau am resymau amgylcheddol / ansawdd bywyd

## ATODIAD F

### TRECHU TLODI – CANLLAWIAU PELLACH

1. Rhaid i bob prosiect a gefnogir trwy'r RCDF wneud cyfraniad at y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013, sy'n cynnwys targedau a cherrig milltir sydd â'r nod o leihau tlodi yng Nghymru. Dyma'r blaenoriaethau allweddol yn y Cynllun Gweithredu:
  - Blynyddoedd cynnar - mae profiadau yn y blynyddoedd cynnar yn cael dylanwad mawr ar ddyfodol unigolyn. Mae datblygiad cynnar sgiliau iaith a gwybyddol yn hanfodol, ynghyd â mynediad at ofal plant o safon uchel sy'n caniatáu i rieni weithio
  - Cyrhaeddiad addysgol – mae plant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn tueddu i berfformio'n waeth na phlant eraill yn yr ysgol. Mae hyn yn annerbyniol ac rydym yn ceisio cau'r bwlch cyrhaeddiad
  - Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) – mae pobl ifanc yn fwy tebygol o berfformio'n dda a chyrraedd eu potensial os byddant yn aros mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Rydym am sicrhau bod pob unigolyn ifanc yn gallu manteisio ar gyfleoedd ac yn barod ac abl ar y cyfleoedd hynny
  - Lleihau nifer yr aelwydydd heb waith – gwaith yw'r ffordd orau o ddod allan o dlodi. Rydym am helpu pobl i ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu 5,000 o gyfleoedd i bobl mewn aelwydydd heb waith
  - Sicrhau mynediad cyfartal at ofal iechyd o safon – mae pobl mewn tlodi yn llai tebygol o gael mynediad at ofal iechyd o safon, er gwaethaf y ffaith eu bod yn fwy tebygol o ddioddef problemau iechyd. Rydym am leihau anghydraddoldeb mewn darpariaeth gofal iechyd
  - Tai ac adfywio – mae tai o safon uchel a'r amgylchedd rydych chi'n byw ynddo yn hynod bwysig i'r profiad o dlodi, ac maent yn cynnig llawer o fanteision. Rydym am wella ansawdd y tai mewn cymunedau tlotach a gwneud llefydd yn fwy dymunol i bobl fyw ynddynt.
2. Y prif adnodd a ddefnyddir i asesu amddifadedd yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD), sy'n mesur crynodiadau amddifadedd. Mae pobl sy'n byw mewn tlodi mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod yn fwy gwasgaredig yn ddaearyddol na'r rhai mewn ardaloedd trefol, felly nid yw'r ardaloedd hyn yn ymddangos yn chwarteli uchaf y Mynegai. Yn aml, mae hyn yn cuddio'r sefyllfa go iawn ac, er mai ychydig iawn o ardaloedd o amddifadedd lluosog uchel sydd yn ein diffiniad o Gymru Wledig, mae llawer o bobl yn dal i fyw mewn tlodi, wedi'u gwasgaru drwy'r rhanbarth.
3. Dros ystod ehangach o fesurau, mae Cymru wledig yn tueddu i berfformio'n well na gweddill Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfartaledd incwm, nifer y bobl sy'n

hawlio budd-daliadau, safonau addysgol, safonau iechyd a chyfraddau troseddu. Fodd bynnag, er bod yr ardaloedd gwledig yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru ar y cyfan ar y mesurau hyn, rhaid hefyd cydnabod nad yw hyn yn golygu nad oes yna broblemau neu fod lefel y problemau yn dderbyniol. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod pobl yn byw mewn tlodi mewn ardaloedd gwledig sydd angen yr un math o gymorth â phobl sy'n byw mewn tlodi mewn ardaloedd eraill.

4. Mae hefyd angen i ni ystyried ffyrdd y gall amddifadedd – a'r profiad o amddifadedd – fod yn wahanol mewn ardaloedd gwledig. Y farn gyffredinol yw bod rhai problemau, megis tlodi tanwydd, yn codi'n fwy aml mewn ardaloedd gwledig. Mae yna dystiolaeth hefyd fod costau byw yn gallu bod yn uwch mewn ardaloedd gwledig. Y broblem fwyaf amlwg yw hygyrchedd. Mewn ardaloedd gwledig, fel arfer bydd hi'n fwy anodd cael mynediad at yr ystod o wasanaethau sy'n cefnogi pobl ddifreintiedig.
5. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i helpu i ddatblygu gwydnwch a gallu ein cymunedau fel eu bod yn gallu ymdopi â'r straen sy'n gysylltiedig â diwygio lles a'u bod yn parhau i dyfu a ffynnu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd yr heriau sy'n wynebu pobl sy'n byw mewn tlodi mewn cymunedau gwledig yn wahanol i'r heriau yn ardaloedd mwyaf poblog Cymru, ac mae wedi ymrwymo i addasu'r ymatebion a'r atebion fel eu bod yn diwallu anghenion lleol.
6. Mae rhai teuluoedd yng Nghymru yn ei chael hi'n anodd cael mynediad at ofal plant oherwydd amseroedd agor anhyblyg, diffyg gwyliau a gofal cofleidiol a bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Yn aml, mae'r problemau hyn yn waeth i deuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle mae problemau penodol yn ymwneud â theithio pellteroedd maith i gael mynediad at ddarpariaeth. Mae'r rhain yn cynnwys nifer y llefydd, dewis a'r math o ofal plant sydd ar gael, yn ogystal â phroblemau economaidd sy'n benodol i ardaloedd gwledig sy'n effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau gofal plant. Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n fwy anodd i deuluoedd (ac yn enwedig menywod fel ail enillwyr) weithio, ac mae'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd teuluoedd yn byw mewn tlodi.
7. Mae mynediad at wasanaethau cyngor yn gallu bod yn anoddach i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig oherwydd problemau teithio a chostau tanwydd. Amlygodd Adolygiad Llywodraeth Cymru o Wasanaethau Cyngori, a gynhaliwyd ym mis Mai 2013, bwysigrwydd hyblygrwydd mewn ymatebion. Mae'r defnydd o wasanaethau ffôn a chyswllt fideo yn arbennig o fuddiol i'r rhai mewn ardaloedd gwledig. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Fforwm Darparwyr Cyngor Annibynnol i nodi ffyrdd o gyflawni hyn. Mae hyn yn cynnwys ystyried ein dull o ariannu gwasanaethau cyngor yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried anghenion pobl sy'n byw yn ardaloedd mwy gwledig Cymru.
8. Mae'n bwysig cynnal mynediad at wasanaethau ariannol prif ffrwd er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o allgáu ariannol a chymdeithasol yng Nghymru wledig. Nod y prosiect Mynediad at Gynhyrchion Ariannol trwy Undebau Credyd

Fersiwn: 10

Dyddiad Cyhoeddi: Rhagfyr 2017

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru Page 51 of 54

yw helpu i ateb y galw hwn trwy ddarparu mynediad at gynhyrchion ariannol syml, tryloyw a fforddiadwy.

9. Mae allgáu digidol yn gallu bod yn broblem fawr mewn cymunedau gwledig, yn enwedig ymhlith y rhai ar incwm isel. Mae teuluoedd incwm isel yn llai tebygol o fod â mynediad at y rhyngrwyd yn eu cartref. Mae mynediad gwael at fand eang o safon yn gwaethygu'r broblem hon mewn ardaloedd gwledig. Yn ogystal, mae allgáu digidol yn gallu arwain at arwahanrwydd cymdeithasol o gymunedau lleol. Yn ogystal, mae pobl o gymunedau difreintiedig mewn ardaloedd gwledig yn ei chael hi'n fwy anodd cael mynediad at ddarpariaeth rhyngrwyd gyhoeddus am ddim mewn llefydd megis llyfrgelloedd oherwydd bod llai o lefydd o'r fath mewn ardaloedd gwledig o'u cymharu ag ardaloedd mwy trefol ac oherwydd cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus llai hygyrch a phellteroedd teithio hirfaith.

## ATODIAD G

### BLAENORIAETHAU A MEYSYDD FFOCWS - DISGRIFIAD

Mae Rheoliad (CE) 1305/2013 yn cyflwyno'r **Amcanion** canlynol:

- Meithrin cystadleurwydd amaethyddiaeth
- Sicrhau bod adnoddau naturiol a chamau mewn perthynas â'r hinsawdd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy
- Sicrhau bod cymunedau ac economïau gwledig yn cael eu datblygu mewn ffordd diriogaethol a chytbwys, gan gynnwys creu a chynnal cyflogaeth

Mae gan y CE 6 **Blaenoriaeth** Datblygu Gwledig sy'n gosod y cyd-destun ar gyfer yr EAFRD:

- 1) Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig
- 2) Gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella hyfywedd ffermydd
- 3) Hyrwyddo'r gwaith o drefnu cadwyni bwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth
- 4) Adfer, diogelu a gwella ecosystemau sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth a choedwigaeth
- 5) Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth
- 6) Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.

Mae'r Blaenoriaethau hyn wedi'u rhannu yn **18 Maes Ffocws**;

<b>Blaenoriaeth 1: Meithrin trosglwyddo gwybodaeth ac arloesedd mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth ac ardaloedd gwledig</b>
(a) Meithrin arloesedd a'r sylfaen wybodaeth mewn ardaloedd gwledig
(b) Cryfhau'r cysylltiadau rhwng amaethyddiaeth a choedwigaeth a rhwng ymchwil ac arloesedd
(c) Meithrin dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol yn y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth
<b>Blaenoriaeth 2: Gwella cystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a gwella hyfywedd ffermydd</b>
(a) hwyluso'r gwaith o ailstrwythuro ffermydd sy'n wynebu problemau strwythurol mawr, yn enwedig ffermydd nad ydynt yn cyfrannu llawer at y farchnad, ffermydd sy'n canolbwyntio ar y farchnad mewn sectorau penodol a ffermydd sydd angen arallgyfeirio
(b) Hwyluso'r gwaith o adnewyddu cenedlaethau yn y sector amaethyddol

<b>Blaenoriaeth 3: Hyrwyddo'r gwaith o drefnu cadwyni bwyd a rheoli risg mewn amaethyddiaeth</b>
(a) Gwella'r gwaith o integreiddio cynhyrchwyr cynradd i mewn i'r gadwyn fwyd trwy gynlluniau o safon, hyrwyddo mewn marchnadoedd lleol a chylchoedd cyflenwi byr, grwpiau o gynhyrchwyr a sefydliadau cydadrannol
(b) Cefnogi'r gwaith o reoli risg ar ffermydd
<b>Blaenoriaeth 4: Adfer, cadw a gwella ecosystemau sy'n ddibynnol ar amaethyddiaeth a choedwigaeth</b>
(a) Adfer a diogelu bioamrywiaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd Natura 2000 a ffermio sydd o werth mawr i natur, a chyflwr tirweddau Ewropeaidd
(b) Gwella'r gwaith o reoli dŵr
(c) Gwella'r gwaith o reoli pridd
<b>Blaenoriaeth 5: Hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a chefnogi'r newid tuag at economi carbon isel sy'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth</b>
(a) Gwella effeithlonrwydd y defnydd o ddŵr yn y sector amaethyddiaeth
(b) Gwella effeithlonrwydd y defnydd o ynni yn y sectorau amaethyddiaeth a phrosesu bwyd
(c) Hwyluso'r gwaith o gyflenwi a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy, sgil-gynhyrchion, gwastraff a gweddillion a deunydd crai arall nad yw'n fwyd at ddibenion y bio-economi
(d) Lleihau allyriadau ocsid nitraidd a methan yn y sector amaethyddiaeth
(e) Meithrin y gwaith o ddal a storio carbon yn y sectorau amaethyddiaeth a choedwigaeth
<b>Blaenoriaeth 6: Hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu economaidd mewn ardaloedd gwledig.</b>
(a) Hwyluso arallgyfeirio, creu mentrau bach newydd a chreu swyddi
(b) Meithrin datblygiad lleol mewn ardaloedd gwledig
(c) Gwella hygyrchedd ac ansawdd technolegau gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), a chynyddu'r defnydd ohonynt, mewn ardaloedd gwledig.